# Uwchgynllun Ystrad Mynach

Cymeradwywyd Ebrill 2019



CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI



# Mynegai


**Adran 1:**
Cyflwyniad

**Adran 2:**
Y Weledigaeth ar gyfer Ystrad Mynach a'r Ardal Ehangach

**Adran 3:**
Ardal yr Astudiaeth

**Adran 4:**
Y Cyd-destun

**Adran 5:**
Strategaeth Ddatblygu

**Adran 6:**
Fframwaith yr Uwchgynllun

**Adran 7:**
Cyflenwi a Gweithredu Newid

**Atodiad1:**
Amcanion Sylfaen i Lwyddiant

**Atodiad 2:**
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Atodiad 3:**
Asesu Cynigion Penodol i Safle yn erbyn y nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# Adran 1: Cyflwyniad

### 1.1

Amlinella'r Uwchgynllun hwn y cyfleoedd datblygu ac adfywio i'r dyfodol a gynigir ar gyfer Ystrad Mynach a'r ardal ehangach. Ceisia adeiladu ar gryfderau cyfredol Ystrad Mynach i sicrhau bod yr ardal yn cyfoethogi ei rôl fel canolfan busnes, cyflogaeth, manwerthu a chwaraeon.

### 1.2

Mae cyfle cyffrous i hwyluso newid sylweddol trwy Fargen Ddinesig Prifddinas – Ranbarth Caerdydd, a fydd yn cynnig adnoddau i ddatgloi twf economaidd sylweddol yn y rhanbarth, gan gyflenwi swyddi a buddsoddiad sector preifat. Amlinella'r Uwchgynllun hwn nifer o brosiectau o fewn Ystrad Mynach a'r ardal ehangach a allai elwa o'r Fargen Ddinesig neu ddulliau ariannu posibl eraill i gyflenwi buddion economaidd sylweddol.

### 1.3

Bydd Cronfa Buddsoddi'r Fargen Ddinesig hefyd yn hwyluso cyflenwi Metro De-ddwyrain Cymru[1], a fydd yn gwneud gwelliannau sylweddol i gysylltedd trwy drafnidiaeth gyhoeddus ar draws y rhanbarth. Mae gan Ystrad Mynach y potensial i ddod yn hwb metro allweddol oherwydd ei leoliad canolog yn y rhanbarth ac mae'r Uwchgynllun yn amlinellu sut y gellir uchafu ar y cyfle hwn.

### 1.4

Ymhellach, mae ardal Caerffili ac Ystrad Mynach wedi'i hadnabod yn Ganolfan Strategol gan Weithlu'r Cymoedd fel ardal lle mae arian cyhoeddus wedi'i ffocysu ar ddarparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd.

### 1.5

Nod allweddol yr Uwchgynllun hwn gan hynny yw harneisio'r cyfleoedd cyffrous hyn a chynnig fframwaith ar gyfer datblygu Ystrad Mynych a'r ardal ehangach i'r dyfodol. Mae'r Uwchgynllun hwn yn hyblyg ac â'r gallu i addasu i amodau economaidd a marchnad sy'n newid a bodloni gofynion a dyheadau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn trwy adolygu rheolaidd. Cydnabyddir bod rhai prosiectau y gellir eu cyflenwi o fewn y tymor byr i ganolig. Serch hynny, er mwyn cyflenwi nodau adfywio hirdymor, mae dyhead i ailddatblygu nifer o safleoedd allweddol o fewn yr ardal Uwchgynllun.

### 1.6

Mae'r Uwchgynllun wedi'i baratoi o fewn cyd-destun Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n amlinellu amcanion defnydd tir y Cyngor ar gyfer y fwrdeistref sirol am y cyfnod hyd at 2021, ond mae hefyd yn amlinellu nodau tymor hwy i sicrhau bod y momentwm newid yn ymestyn i'r degawd nesaf.

### 1.7

Mae llawer o'r prosiectau sydd wedi'u hadnabod yn yr Uwchgynllun wedi'u halinio â chynigion o fewn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Dylid nodi y daw cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig i ben yn 2021 a bydd angen adolygu'r cynllun i ddarparu fframwaith polisi ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i 2021. Ymhellach, gallai cynigion

[1] https://tfw.gov.wales/



perthnasol gael eu cynnwys o fewn y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd angen adolygu'r Uwchgynllun i ystyried y polisïau a'r cynigion perthnasol yn y cynlluniau datblygu yn y dyfodol ar yr adeg briodol.

### 1.8

Cymeradwywyd 'Sylfaen i Lwyddiant/A Foundation for Success', y strategaeth adfywio cyffredinol ar gyfer y fwrdeistref sirol, ym mis Gorffennaf 2018. Mae'n cynnig y fframwaith strategol ar gyfer gweithgarwch adfywio yn ystod y bum mlynedd nesaf. Mae'n canolbwyntio ar bedair thema allweddol a oedd yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer adfywio:

- Cefnogi Pobl
- Cefnogi Busnesau
- Cefnogi Ansawdd Bywyd
- Cysylltu Pobl a Lleoedd

### 1.9

Rhestra Atodiad 1 yr amcanion adfywio a strategol i fynd i'r afael â hwy o dan bob thema.

### 1.10

Cafodd Uwchgynllun Basn Caerffili, y cyntaf mewn cyfres o uwchgynlluniau ategol i 'Sylfaen i Lwyddiant/A Foundation for Success', ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018 ac mae'n darparu cynigion manylach ar gyfer adfywio ac adfywhau Basn Caerffili.

### 1.11

Uwchgynllun Ystrad Mynach yw'r ail strategaeth ardal benodol sy'n adnabod prosiectau a fydd yn helpu i fynd i'r afael â materion ac amcanion allweddol a amlinellwyd o fewn y Strategaeth Adfywio ehangach. Mae'n ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer 'Sylfaen i Lwyddiant/A Foundation for Success' a fydd yn cael ei adolygu bob pum mlynedd. Adnabu'r Uwchgynllun cyfleoedd buddsoddi a datblygu o fewn rhan Ystrad Mynach o'r Hwb Strategol.

### 1.12

Er mwyn cofnodi cyfleoedd adfywio ledled y fwrdeistref sirol, cynhyrchir rhagor o strategaethau ac uwchgynlluniau (Blaenau'r Cymoedd, Coed Duon Fwyaf, a Choridor Trecelyn i Risga).

# Adran 2: Y Weledigaeth ar gyfer Ystrad Mynach a'r Ardal Ehangach

### 2.1

Yn ganolog i'r Weledigaeth ar gyfer Ystrad Mynach yw'r gallu i gyfoethogi ei phrif rôl fel canolfan economaidd strategol sy'n alluog o gefnogi cymunedau lleol. Dylai rôl y dref i'r dyfodol uchafu ar gyfleoedd adfywio, cyflogaeth, manwerthu a chwaraeon a hamdden. Mae'r Weledigaeth ar gyfer Ystrad Mynach a'r ardal ehangach hefyd yn gysylltiedig â'r Weledigaeth ar gyfer bwrdeistref sirol yn gyffredinol, fel yr amlinellir o fewn Strategaeth Adfywio'r Cyngor 'Sylfaen i Lwyddiant/A Foundation for Success'.

### 2.2

Mae'r Weledigaeth hon fel a ganlyn:

***"Datblygu a chyfoethogi Ystrad Mynach fel ardal fusnes, gwasanaeth a chyflogaeth sylweddol ac fel Canolfan Economaidd Strategol o fewn Rhanbarth Cyfalaf Caerdydd.***

***Bydd yn gyrchfan busnes, manwerthu, hamdden a thwristiaeth sy'n ffynnu gyda chyfleusterau rhagorol, yn ardal ddysgu eithriadol a mannau gwyrdd anhygoel.***

***Bydd yn lle cyffrous a bywiog lle bydd busnesau eisiau lleoli, datblygu a thyfu a lle bydd pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld.***

***Bydd ei chymunedau yn ddeniadol ac yn gynaliadwy gyda chysylltiadau gwych â'r Metro a bydd y preswylwyr yn teimlo'n ddiogelu, yn dyheu i lwyddo a byw bywyd actif ac iach."***

## 2.3

Mae'r Weledigaeth wedi'i pharatoi gan roi ystyriaeth i'r saith nod lles a amlinellir o fewn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 2.4

Bydd y Weledigaeth ar gyfer y dref yn cael ei chefnogi gan gyfres o Amcanion Strategol a fydd yn gyrru ei gyflawniad ac yn trosi'n uniongyrchol i gyfres o brosiectau a gweithredoedd sy'n:

**A.** **Darparu'r amodau i gryfhau twf busnes a manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth –** *Adnabod cyfleoedd i gefnogi busnesau a sefydliadau o fewn yr economi leol i ehangu a darparu ar ystod o swyddi a meithrin gallu i gyfoethogi'r cyfraniad i'r economi sylfaenol;*

**B.** **Creu'r amodau i'r ardal ddod yn Hwb Metro ffyniannus –** *Uchafu'r ardal o amgylch Gorsaf Ystrad Mynach i greu pwynt cyrraedd wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr â'r dref. Datblygu cynllun rheilffordd Metro rhwng Ystrad Mynach a Dowlais Uchaf gydag arosfeydd metro newydd yn Nhredomen a Nelson, ehangu ar y cyfleusterau Parcio a Theithio ynghyd â'r rhwydwaith rheilffordd craidd a darparu trafnidiaeth gyflym ar draws y cymoedd;*

**C.** **Moderneiddio a datblygu Ystrad Mynach yn ganolfan busnes a masnachol ffyniannus –** *Manteisio ar bresenoldeb gwasanaethau a chyfleusterau o bwys sydd wedi'u lleoli yn Ystrad Mynach ac adeiladu ar ei safle fel canolfan weinyddol y Fwrdeistref Sirol;*

**D.** **Creu Clwstwr Chwaraeon, Hamdden ac Addysg rhagorol –** *Ehangu ar y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon flaenllaw a datblygu ymhellach gyfleoedd diwylliannol, addysgol a chwaraeon;*

**E.** **Creu cyrchfan fywiog a hygyrch i ymwelwyr –** *Adnabod cyfleoedd i ehangu ar y ddarpariaeth dwristiaeth sydd ar gael o fewn yr ardal;*

**F.** **Uchafu ar fwynhad yr asedau gwyrdd niferus o fewn yr Ardal Uwchgynllun a'r cyffiniau –** Annog defnydd ar fannau gwyrdd, gan gynnwys Parciau Gwledig, i gyfoethogi ansawdd bywyd a hyrwyddo lles;

**G.** **Cwblhau gwaith adfywio yn safle Glofa Penallta –** *Manteisio ar gyfleoedd adfywio sylweddol wedi'i arwain gan dai a chyflogaeth a fydd yn gweld cadw a diogelu'r cyn glofa wych hon sy'n bwysig ac yn eithriadol;*

**H.** **Cefnogi datblygu tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ar safleoedd maes glas a thir llwyd mewn lleoliadau cynaliadwy –** *Adnabod cyfleoedd preswyl allweddol y gellir eu datgloi ar safleoedd sy'n cyd-fynd â pholisi cynllunio, gan gynnwys tai arloesol a thai fel rhan o ddatblygiadau defnydd cymysg;*

**I.** **Darparu lefel addas o gyfleusterau hamdden ac addysg cymunedol i gefnogi lefel bosibl y boblogaeth a thwf tai o fewn Canolfan Strategol Ystrad Mynach –** *Cydnabod bod*

*cyfleusterau o'r fath yn bwysig i'r boblogaeth a sicrhau bod y cyfleusterau hyn yn bodloni anghenion yn y dyfodol;*

**J. Sicrhau bod hygyrchedd i bawb yn rhan annatod o bob cynllun gwella** – *Amcan trawsbynciol sy'n cydnabod bod pobl wedi'u hanalluogi yn fwy gan gynllun gwael, gwasanaethau anhygyrch ac agweddau pobl eraill na gan amhariad eu hunain;*

**K. Sicrhau bod pob cymuned yn ardal yr Uwchgynllun yn gallu ymgysylltu ag Ystrad Mynach sy'n fwy ac yn well, ac elwa arni.** – *sicrhau bod y cynigion a adnabuwyd yn yr Uwchgynllun yn cael canlyniadau cadarnhaol ar y rheini sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.*

**2.5**

Amlinella Atodiad 2 sut y mae pob un o'r Amcanion Strategol yn perthyn i'r nodau llesiant a amlinellir o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



## Ffigwr 1: Ardal Uwchgynllun Ystrad Mynach



# Adran 3: Ardal yr Astudiaeth

### 3.1

Mae Canolfan Strategol Ystrad Mynach wedi'i lleoli yng nghanol Cwm Rhymni, sy'n cynnwys y Brif Dref Ystrad Mynach a Chanolfan Leol Nelson, ynghyd ag ardaloedd preswyl Penallta, Gelligaer / Penybryn, Penpedairheol, Cascade, Hengoed / Cefn Hengoed a Thiryberth, y mae gan bob un ohonynt gysylltiadau a gan amlaf gwreiddiau yn y diwydiant glo.

### 3.2

Mae'n cynnwys wardiau etholiadol Ystrad Mynach, Nelson, St Cattwg a Hengoed. Mae rhan fechan o'r ardal i'r de o Ystrad Mynach, sy'n cynnwys Parc Busnes Dyffryn, yn disgyn o fewn ward Maesycwmer. Mae Ffigwr 1 yn nodi graddau ardal yr Uwchgynllun.

### 3.3

Mae'r ardal wedi'i lleoli'n dda yn strategol gyda chysylltiadau da â Chaerdydd a'r M4 ar y ffordd trwy'r A469 a'r A470. Mae Ystrad Mynach a Nelson wedi'u lleoli ar y brif ffordd dwyrain i'r gorllewin yr A472, sy'n caniatáu mynediad hawdd ar y ffordd i'r A470 i'r gorllewin a Phont-y-pwl a Chwmbrân i'r dwyrain.

### 3.4

Mae tair gorsaf reilffordd yn yr ardal – Ystrad Mynach, Hengoed a Phengam. Mae'r gorsafoedd ar hyd llinell Cwm Rhymni, ac mae gan bob un ohonynt gyfleuster parcio a theithio. Yn ystod dyddiau'r wythnos ac ar ddydd Sadwrn mae gwasanaeth trenau rheolaidd yn rhedeg bob 15 munud o Bengam, Hengoed ac Ystrad Mynach i Gaerdydd. Mae Cam 3 prosiect Metro yn cynnig cyflwyno trenau i deithwyr ar hyd llinell Cwm Bargod.

### 3.5

Mae llai o wasanaethau gyda'r hwyr ac ar ddydd Sul, ond bydd y rhain yn cynyddu fel rhan o raglen drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

### 3.6

Mae Amcangyfrifon Poblogaeth Hanner Blwyddyn 2016 yn nodi bod gan yr ardal gyfanswm poblogaeth o 23,696 o bobl.



# Adran 4: Y Cyd-destun

### 4.1

Wrth osod cyd-destun yr uwchgynllun mae'n bwysig deall y cyfleoedd allweddol sy'n bodoli ar hyn o bryd o fewn yr ardal Uwchgynllun.

## Cyfleoedd

- **Bargen Ddinesig Prifddinas - Ranbarth Caerdydd:** Bydd y Fargen Ddinesig ar gyfer y rhanbarth yn cynnig lefel ddigynsail o ariannu ar gyfer prosiectau gyda'r nod o hyrwyddo twf economaidd a chreu swyddi ar draws y rhanbarth. Er mai'r nod cyffredinol yw cynhyrchu twf economaidd, ac y bydd rhan sylweddol o'r ariannu £1.25 biliwn yn cael ei ddefnyddio i wireddu'r nod hwn, defnyddir cyfran fwyaf yr ariannu i gyflenwi'r Metro Prifddinas-Ranbarth. Y cysyniad Metro yw system drafnidiaeth ranbarthol sy'n darparu rhwydwaith trafnidiaeth effeithiol, ddibynadwy ac o ansawdd uchel ac sy'n gynaliadwy yn economaidd i gefnogi'r twf economaidd arfaethedig o fewn y rhanbarth. Mae lleoliad Ystrad Mynach yng nghalon y fwrdeistref sirol gyda'i chyfleoedd economaidd a thrafnidiaeth yn ei gosod mewn safle cryf i gyfrannu at gyflenwi nodau ac amcanion y Fargen Ddinesig a'r Metro a fyddai'n cyflwyno buddion sylweddol o'r ariannu hwn.
- **Ein Cymoedd, Ein Dyfodol:** Mae'r Gweithlu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru yn adnabod Ystrad Mynach, ynghyd â Chaerffili, fel Canolfan Strategol yn canolbwyntio ar gyfleodd busnes a chyflogaeth newydd. Bydd hon yn ardal lle y mae arian cyhoeddus yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd.
- **Parc Rhanbarthol y Cymoedd (VRP):** Mae'r VRP yn fenter ddynamig a chyffrous i gydlynu, gyrru a hyrwyddo gweithgareddau yn ymwneud â'r amgylchedd a gweithgareddau treftadaeth a chysylltiedig â thwristiaeth ar draws cymoedd De Cymru, gan weithio i newid realiti a chanfyddiadau ar draws y Cymoedd fel lle hynod ddymunol i fyw, gweithio ac ymweld. Mae'r Uwchgynllun yn cynnwys parciau a mannau gwyrdd y gellir eu cyfoethogi a'u hyrwyddo fel asedau amgylcheddol a diwylliannol neilltuol gan hynny yn helpu i adfywio'r ardal.
- **Cartref i wasanaethau cyhoeddus hanfodol:** Yn ddiweddar mae Prif Dref Ystrad Mynach wedi denu buddsoddiad sylweddol o'r sector cyhoeddus a phreifat. Bellach mae'r dref yn gartref i Bencadlys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Gorsaf Heddlu Ystrad Mynach, Ysbyty Ystrad Fawr a Choleg Y Cymoedd.
- **Parciau Busnes sy'n Bodoli'n Barod:** Mae'r prif ystadau diwydiannol wedi'u lleoli i'r de o Ystrad Mynach ym Mharc Busnes Dyffryn, ac i'r gogledd o dref Penallta. Mae datblygiadau cymysg llai ar hyd yr A469 trwy Tiryberth ac mae Parc Busnes Tredomen, sy'n fawr ei fri, wedi'i leoli ar hyd yr A472 yn Nhredomen.
- **Ty Du:** Mae'r safle yn cynrychioli cyfle datblygu rhanbarthol o bwys i greu

datblygiad preswyl atyniadol ynghyd ag unedau cyflogaeth, yn cynnwys ffurf gynaliadwy ar ddatblygiad gyda buddion economaidd a chymdeithasol posibl sylweddol.

- **Cynnig Manwerthu:** Mae'r brif ddarpariaeth siopa yn Ystrad Mynach yn cynnwys dwy archfarchnad genedlaethol, sef Lidl a Tesco ,a dros 80 o unedau masnachol eraill yn cynnwys cymysgedd dda o manwerthwyr annibynnol. Mae Nelson yn Ganolfan Leol lai sy'n cynnwys archfarchnad, Co-Op, ac ystod o fanwerthwyr annibynnol bach.

- **Twristiaeth:** Mae Plas Llancaiach Fawr yn adeilad rhestredig Gradd I o ddechrau'r 16eg Ganrif ac yn un o'r enghreifftiau gorau o blastai rhannol amddiffynedig yng Nghymru heddiw. Mae hefyd yn un o dri phrif atyniad twristiaeth yn y fwrdeistref sirol. Mae'r eiddo yn cynnwys cyfleusterau deongliadol ac addysgol i ymwelwyr ynghyd â chynnal nifer o ddigwyddiadau ac achlysuron. Serch hynny, nid oes darpariaeth llety ar y safle nac yn union wrth ymyl. Byddai darpariaeth o'r fath yn cynyddu apêl y lleoliad, yn cynyddu arosiadau dros nos ac yn cynyddu mwy o weithgaredd sy'n ymwneud â thwristiaeth.

  Mae'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon, prif gyfleuster chwaraeon y fwrdeistref sirol, yn atyniad o bwys, wedi'i lleoli o fewn yr Ardal Uwchgynllun. Mae potensial ar gyfer ehangu pellach ar y cyfleuster i greu lleoliad ysbrydoledig a fydd yn denu ac yn hwyluso chwaraeon lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddenu llawer o ymwelwyr i Ystrad Mynach.

- **Adfywio:** Mae Cynllun Adfywio Glofa Penallta yn un o'r prosiectau adfywio mwyaf cyffrous yn y fwrdeistref sirol. Ar dir sydd wedi'i adennill ers cau'r pwll yn 1991, mae adeiladau glofaol hanesyddol wedi'u hadfer a'u trosi'n rhannol. Mae cyfleodd yn bodoli ar gyfer trosi pellach ar yr holl adeiladau rhestredig sy'n weddill gan gynnwys y Neuadd Pwer amlwg a'r Baddondy trawiadol o'r 1930au, sydd â'r potensial ar gyfer defnydd cymysg. Hefyd, mae datblygiad newydd sy'n cynnwys ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, ardaloedd ffurfiol ac anffurfiol o fannau agored yn agos at gael ei gwblhau, gyda dim ond un ardal sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unedau masnachol nad yw wedi'i datblygu hyd yma.

- **Economi gyda'r Nos**: Mae gwelliannau i lety ac economi hamdden a gyda'r nos (gan gynnwys tafarndai, bwytai a llety) yn parhau yn hanfodol i gynyddu'r amser preswylio o fewn yr ardal Uwchgynllun.

- **Teithio Llesol** Mae cerdded a beicio yn dda ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol. Bydd newid mwy o siwrneion i deithio llesol, cerdded neu feicio, yn gwella iechyd, ansawdd bywyd a'r amgylchedd. Mae cyfle yn bodoli i hyrwyddo teithio llesol ar draws yr Ardal Uwchgynllun ar gyfer siwrneion bob dydd.

## 4.2

Er mwyn hyrwyddo newid, mae'n bwysig cydnabod yr heriau y mae'r ardal Uwchgynllun yn eu hwynebu wrth gyflawni'r Weledigaeth. Mae'r heriau hyn wedi'u hadnabod trwy ymgynghoriad gyda'r rhanddeiliaid.

## Heriau

- **Codi'r proffil:** Mae Ystrad Mynach angen hyrwyddo ymhellach ei hunaniaeth i gynulleidfa ehangach fel canolfan weinyddol a gwasanaethu. Mae creu canolfan y gellir ei hadnabod yn well yn gofyn am gyfoethogi'r ddarpariaeth manwerthu, y cynnig gyda'r nos ac i ymwelwyr, gweithgareddau hyrwyddo cynyddol a gwell cysylltiadau bws a rheilffordd.

- **Manwerthu:** Mae'r ffasiwn bresennol ar gyfer siopa trwy brofiad a thwf siopa ar-lein yn her i ganol trefi. Ymhellach, mae rhesymoli portffolios eiddo gan fanciau cenedlaethol o bryder hefyd wrth i nifer y banciau o fewn y trefi ostwng.

- **Cysylltedd:** Bydd llawer o ymwelwyr sy'n teithio ar y trên i Ystrad Mynach yn cyrraedd yn yr orsaf heb synnwyr cyrraedd gan fod y berthynas rhwng yr orsaf drên a chanol y dref, ac mae llawer o'r gwasanaethau lleol megis y coleg a'r ysbyty yn wael. Byddai Ystrad Mynach yn elwa o gyfnewidfa bws/trên, serch hynny cyfyng yw'r cwmpas o fewn, ac o gwmpas, Gorsaf Drên Ystrad Mynach i wneud darpariaeth newydd. Er bod gan Nelson gyfnewidfa fws, ar hyn o bryd nid oes gwasanaeth rheilffordd i deithwyr i Nelson.

- **Ariannu:** Bydd angen i nifer o gynlluniau adfywio gael eu cefnogi gan ariannu grant, sy'n gyfyngedig. Bydd colli ariannu'r Undeb Ewropeaidd o ganlyniad i Brecsit yn gostwng y cyfleoedd ar gyfer cynigion ariannu. Mae'n aneglur ar hyn o bryd sut y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud iawn am hyn.

- **Economi gyda'r Nos:** Mae'r economi gyda'r nos yn wael ar hyn o bryd yn Ystrad Mynach, yn cynnwys siopau cludfwyd a rhai tafarndai/bwytai yn bennaf. Er bod neuadd fingo, nid oes adloniant rheolaidd gyda'r nos o fewn yr ardal megis sinema neu ganolfan fowlio a dim ond nifer cyfyngedig o fwytai. Serch hynny, mae gan Nelson well darpariaeth o fwytai i deuluoedd.

- **Parcio:** Mae meysydd parcio yn gwasanaethu Ystrad Mynach a Nelson. Yng Nghanol Tref Ystrad Mynach mae maes parcio talu ac arddangos wedi'i leoli yng nghefn Ffordd Bedwlwyn. Yn ychwanegol at y meysydd parcio talu ac arddangos mae'r parcio di-dâl ar y stryd yn gyfyngedig yn ardal Ffordd Bedlwywn /Ffordd Penallta, ac mae'r parcio ar y strydoedd ochr amgylchynol yn gwrthdaro â pharcio i breswylwyr.

  Yn Nelson, mae tri maes parcio, y mae pob un ohonynt yn ddi-dâl. Yn ychwanegol mae'r parcio di-dâl ar y stryd yn gfyfyngedig yn ardal Commercial Road. Eto, mae parcio ar strydoedd ochr amgylchynol yn gwrthdaro â pharcio

preswylwyr. Ystyrir bod y diffyg argaeledd parcio o fewn y canol trefi yn cael effaith sylweddol ar nifer yr ymwelwyr posibl. Nid oes mannau parcio ceir digonol yng nghyfleusterau Parcio a Theithio Ystrad Mynach a Hengoed.

- **Tai:** Mae'r galw am dai yn uchel o fewn yr Ardal Uwchgynllun. Oherwydd diffyg cyflenwad o dir ar gyfer tai am 5 mlynedd (fel sy'n ofynnol gan y polisi cynllunio cenedlaethol) mae'r ardal yn fregus ar hyn o bryd i geisiadau am dai ar safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol.

- **Perygl o lifogydd:** Mae nifer o gyrsiau dwr , gan gynnwys Afon Rhymni, yn llifo trwy'r Ardal Uwchgynllun ac mae rhannau o'r ardal drefol sydd wrth risg o lifogydd. Mae arweiniad cynllunio cenedlaethol yn hyrwyddo ymdriniaeth ragofalus wrth ystyried cynigion datblygu o fewn yr ardaloedd wrth risg o lifogydd a gallai hyn gyfyngu ar ddatblygu rhai safleoedd o fewn yr ardal.



# Adran 5: Y Strategaeth Ddatblygu

## At beth y dylai Uwchgynllun Ystrad Mynach fod yn anelu?

### 5.1

Er mwyn cyflenwi'r Weledigaeth a'r Amcanion Strategol, mae'n bwysig amlinellu'r strategaeth ddatblygu mewn perthynas â'r defnyddiau tir allweddol o fewn yr ardal Uwchgynllun, ar ôl ystyried y strategaeth a'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, dyheadau rhanbarthol a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n ffurfio'r cyd-destun hwnnw. Amlinellir cyflenwi penodol i safle'r Uwchgynllun yn Adran 6.

## Cyflogaeth

### 5.2

Dylai'r safleoedd cyflogaeth a gafodd eu hadnabod yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig o fewn yr ardal Uwchgynllun (Parciau Busnes Dyffryn, Tredomen a Dwr Cymru, ac Ystadau Diwydiannol Penallta a Thiryberth) barhau i gael eu datblygu. Mae safleoedd dyrannu pellach yn bodoli ym Mharc Busnes Ty Du a Dyffryn i'r Gogledd ac i'r De ac mae'r rhain yn parhau yn safleoedd allweddol ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth. Yn wreiddiol cyflwynwyd tir i'r gogledd o Gwm Calon fel safle defnydd cymysg, preswyl a chyflogaeth, serch hynny mae'r safle wedi'i ddatblygu ers hynny at ddatblygiad preswyl.

### 5.3

Ceisia'r Uwchgynllun adeiladu ar yr ardal fel Rhanbarth Busnes. Mae'n ceisio dyrannu tir ychwanegol ar gyfer cyflogaeth yn Nhredomen i ganiatáu ar gyfer ehangu'r parc busnes mawr ei fri llwyddiannus, ac i uchafu ar gyfleoedd cyflogaeth yn yr hybiau Metro newydd a chyfredol yn Nelson, Tredomen ac Ystrad Mynach. Rhagwelir y bydd hyn trwy ddarpariaeth datblygiad masnachol a swyddfa newydd sy'n bodloni anghenion busnesau modern.

### 5.4

Mae cyfle hefyd i uchafu ar botensial datblygu llawn yn rhan isaf Ystrad Mynach trwy ailddatblygu unedau ar Ystad Ddiwydiannol Ffordd Caerffili. Bydd unedau addas i'r diben newydd yn creu cyfleoedd busnes a chyflogaeth yn y lleoliad amlwg hwn wrth y porth deheuol i'r dref.

## Hamdden

### 5.5

Mae nifer o fannau agored ffurfiol ac anffurfiol allweddol a chyfleusterau wedi'u diogelu at ddibenion hamdden, a dylid archwilio cyfleoedd i uchafu ar botensial y rhain er budd hamdden a chymuned.

### 5.6

O fewn Ystrad Mynach, mae'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon yn gyfleuster chwaraeon o'r radd flaenaf. Mae cyfle i ehangu'r cyfleusterau cyfredol i greu 'Pentref Chwaraeon' yn cynnwys Parc Ystrad Mynach, adeilad chwaraeon dan do newydd, arena tenis ac eisteddle mawr ychwanegol i wylwyr i wella'r capasiti yn y cyfleuster cyfredol.a

### 5.7

Ceisia'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig ddiogelu Parciau Gwledig ac mae'r

Uwchgynllun yn adnabod cyfleoedd i ehangu ar gyfleusterau ym Mharc Penallta a Pharc Coetir Nelson Wern.

## Trafnidiaeth

### 5.8

Mae cyfleoedd i annog teithio llesol trwy lwybrau cerdded a beicio gwell yn bwysig a bydd yr Uwchgynllun yn ystyried y gwelliannau a gafodd eu hadnabod fel rhan o'r Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol. Yn ychwanegol at hyn, mae anallu'r gwasanaethau rheilffordd i gario beiciau, yn enwedig ar y cyfnodau brig, yn golygu nad yw beicio i'r gwaith gan ddefnyddio'r rheilffordd yn gyffredinol yn opsiwn posibl. Bydd angen i'r uwchgynllun ystyried gwella darpariaeth ar gyfer parcio beiciau yn ddiogel ac o bosibl cyflwyno cyfleusterau llogi beic ar y stryd/ yn yr orsaf er mwyn caniatáu i feicwyr adael beiciau a defnyddio beiciau llog i hwyluso eu symudiad ar y rheilffordd.

### 5.9

Mae Metro De-ddwyrain Cymru yn allweddol i wella'r drafnidiaeth gyhoeddus a bydd yr Uwchgynllun yn edrych i fanteisio ar y cyfleoedd i greu swyddi a gwella'r cyfleusterau ym mhrif hwb metro'r dref yn Ystrad Mynach. Byddai hefyd yn edrych ar ddarparu hybiau metro newydd yn Nelson a Thredomen ac uchafu ar gyfleoedd parcio a theithio mewn gorsafoedd sy'n bodoli'n barod a'r rhai newydd arfaethedig.

### 5.10

Mae angen am strategaeth barcio o fewn canol y dref i sicrhau bod parcio digonol yn y lleoliadau cywir i gefnogi'r Weledigaeth ar gyfer yr ardal.

## Manwerthu

### 5.11

Mae manwerthu yn sylfaenol i rôl a gweithred ganol trefi, ac yn ffynhonnell gyflogaeth o bwys. Mae'r ardal Uwchgynllun yn cynnwys Prif Dref Ystrad Mynach a Chanolfan Leol Nelson ynghyd ag ardaloedd preswyl Hengoed, Gelligaer a Phenpedairheol.

- **Ystrad Mynach** – Mae'r brif ddarpariaeth siopa yn cynnwys dwy archfarchnad genedlaethol a dros 80 o unedau masnachol eraill.
- **Nelson** – Mae'n cynnwys archfarchnad fechan ac ystod o siopau bach.
- **Manwerthu cymdogaeth** - yn unol â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol, nid yw'r strategaeth yn hyrwyddo darparu datblygiad manwerthu o bwys y tu allan i ardaloedd manwerthu dynodedig, ond mae datblygu unedau manwerthu llai i gefnogi anghenion lleol yn rhan allweddol o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

### 5.12

Mae gan Ystrad Mynach a Nelson y potensial i ehangu ar y ddarpariaeth manwerthu

## Twristiaeth

### 5.13

O fewn yr ardal Uwchgynllun mae cymysgedd o atyniadau 'treftadaeth' a 'gwledig'. Mae Plas Llancaiach Fawr yn un o dair prif atyniad

twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae atyniadau eraill yn cynnwys Parc Penallta a'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon. Gallai cynyddu'r ddarpariaeth chwaraeon a hamdden yn y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon i ganiatáu ar gyfer cynnal ystod mwy o gemau cynrychioladol gael buddion sylweddol ar dwristiaeth ar gyfer yr ardal.

### 5.14

Ceisia'r Uwchgynllun ehangu ar y ddarpariaeth dwristiaeth i annog ymwelwyr dydd i aros yn hwy a gwario mwy yn y busnesau o fewn Ystrad Mynach a'r ardal ehangach. Mae hefyd yn ceisio archwilio cyfleoedd newydd ar gyfer llety ychwanegol o fewn yr ardal fel bod gan ymwelwyr opsiynau i aros am wyliau byr.

### 5.15

Mae'r potensial hefyd i fanteisio ar y farchnad twristiaeth antur cryf yn Ne Cymru trwy ddarparu llety a chyfleusterau priodol o fewn yr ardal Uwchgynllun.

## Preswyl

### 5.16

Mae'r strategaeth Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ar gyfer y Coridor Cysylltiadau Gogleddol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy sy'n canolbwyntio datblygiad ar y safleoedd tir llwyd a maes glas sy'n ystyried swyddogaethau cymdeithasol ac economaidd yr ardal.

### 5.17

Mae'r strategaeth hon wedi profi'n llwyddiannus o fewn ardal ehangach Ystrad Mynach, yn enwedig cyn safle Glofa Penallta sydd wedi gweld adfer safle tir llwyd sylweddol a darparu datblygiad preswyl mawr ei fri. Mae rhai o'r adeiladau rhestredig sy'n gysylltiedig â'r cyn safle glofaol wedi'u trosi'n rhannol ar gyfer tai, ond mae cyfleoedd pellach yn bodoli ar gyfer trosi'r adeiladau gwarchodedig hyn yn sensitif ac wrth ystyried cadwraeth ynghyd â chyfleoedd datblygu newydd o fewn y safleoedd

### 5.18

Mae'r anheddau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyn safle Ysgol Gynradd Greenhill yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Mae safleoedd tir llwyd pellach yn parhau, gan gynnwys safle Partmart yn Nhir-y-berth, tir i'r dwyrain o'r Cwrt Pêl Llaw yn Nelson a thir yn New Road, Ystrad Mynach.

### 5.19

Mae caniatâd cynllunio wedi'i ganiatáu yn ddiweddar ar gyfer tua 200 o anheddau ynghyd â 3.8 he o unedau cyflogaeth ar dir yn Nhy Du, Nelson. Mae'r datblygiad hynod arwyddocaol hwn wedi'i nodi yn yr Uwchgynllun.

### 5.20

Mae'r Uwchgynllun yn cydnabod bod pwysau datblygu ar dir y tu allan i ffiniau anheddiad yr Ardal Uwchgynllun. Bydd angen ystyried addasrwydd unrhyw safle ar ei deilyngdod, ar ôl ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio gan gynnwys cynaliadwyedd y lleoliad a'r angen am dai ychwanegol.

## Amgylchedd Naturiol

### 5.21

Cydnabyddir bod yr Ardal Uwchgynllun yn cynnwys tirlun unigryw ac amrywiol gyda threftadaeth naturiol cyfoethog. Ceir hefyd rhwydwaith o fannau agored pwysig o fewn yr ardaloedd trefol. Mae lleoliad naturiol Ystrad Mynach a'r cymunedau eraill, a'r agosrwydd at Barc Penallta a Pharc Coetir Nelson Wern, yn ased cadarnhaol a all ddarparu cyfleoedd twristiaeth ac mae'n cael

ei werthfawrogi'n fawr gan ei breswylwyr. Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol o dan y Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau a bydd hyn yn ystyriaeth allweddol wrth baratoi cynigion manwl. Mae polisïau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n ceisio diogelu nodweddion pwysig yr amgylchedd naturiol a chynnal mannau agored allweddol, ynghyd â diogelwch yr amgylchedd dwr. Nid yw'r polisïau hyn yn cau allan datblygiad, ond yn sicrhau bod datblygiad priodol yn cael ei ganiatáu lle na fydd effaith annerbyniol.

## Ynni Adnewyddadwy

### 5.22

Bydd y cyfleoedd i gynnwys technolegau adnewyddadwy o fewn y cynigion datblygu yn cael eu hannog lle fo'n briodol. Bydd datblygu mannau gwefru trydanol ar gyfer cerbydau o fewn yr ardal Uwchgynllun yn cael ei archwilio.

### 5.23

Mae cyfleuster ailgylchu a rheoli gwastraff Bryn Group yn ardal yr Uwchgynllun. Mae gwaith Treulio Anaerobig y cyfleuster yn helpu gwneud cyfraniad arwyddocaol i darged Llywodraeth Cymru i gynhyrchu 70% o'i thrydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030 a sicrhau gostyngiad o 80% mewn lefelau $CO_2$ erbyn 2050 (o'u cymharu â lefelau 1990). Mae'r gwaith Treulio Anaerobig yn chwarae rôl allweddol drwy dderbyn gwastraff gwyrdd a gwastraff bwyd a gesglir oddi wrth drigolion lleol ym mwrdeistref sirol Caerffili ac, ar hyn o bryd, mae'n cynhyrchu 1 megawat yr awr o drydan adnewyddadwy, sy'n cael ei ddefnyddio ar y safle ac yn cael ei anfon i'r Grid Cenedlaethol, sy'n cyflenwi trydan i Dde Cymru. Mae hyn cyfwerth â phweru 2,500 o gartrefi ddydd a nos am flwyddyn gyfan.

### 5.24

Mae'r cyfleuster hefyd yn gysylltiedig â phrosiectau ymchwil gyda Phrifysgol De Cymru, sy'n ceisio gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy, cefnogi diogelwch ynni a gwneud y mwyaf o gyfleoedd gwaith yn y sector. Mae cyfleusterau addysg a lles yn cael eu hybu ar y safle.





# Adran 6: Fframwaith yr Uwchgynllun

Amlinella'r adran hon y prosiectau a'r cynigion safle penodol a fydd gyda'i gilydd yn cyflenwi'r Weledigaeth a'r Amcanion. Mae llawer o'r prosiectau yn rhyng-gysylltiedig, a chan hynny gallai gweithredu rhai o'r prosiectau fod yn ddibynnol ar gynigion eraill yn mynd rhagddynt yn ddilyniannol neu'n gydamserol.

## A - PDARPARU AMODAU I GRYFHAU TWF BUSNES A MANTEISIO AR GYFLEOEDD CYFLOGAETH

### 6.1

Mae cyfleoedd gwych i weddnewid Ystrad Mynach yn ganolfan economaidd isranbarthol allweddol sy'n alluog i gefnogi cymunedau lleol o fewn yr Ardal Uwchgynllun. Mae'r potensial yn bodoli i fanteisio ar bresenoldeb prif wasanaethau a chyfleusterau ynghyd â manteisio ar safle Ystrad Mynach fel canolfan weinyddol y fwrdeistref sirol.

### 6.2

Mae potensial anferth i ehangu a chyfoethogi ar rôl Ystrad Mynach fel ardal fusnes allweddol, gan uchafu ar gyfleodd cyflogaeth sy'n bodoli yn awr ac yn y dyfodol.

### 6.3

Mae Ffigwr 2 yn adnabod y cyfleoedd o gyflogaeth yn yr ardal Uwchgynllun. Yn ychwanegol at y swyddi sydd wedi'u creu ar y safleoedd hyn, bydd datblygu tai newydd, manwerthu, swyddfeydd ac isadeiledd eraill ar draws yr ardal Uwchgynllun yn creu swyddi yn y diwydiant adeiladu ac yn cefnogi'r gadwyn cyflenwi leol. Bydd llawer o'r swyddi hyn o fewn yr economi sylfaenol, a fydd yn cefnogi'r amcanion a amlinellir o fewn y Strategaeth Adfywio.

## Ffigwr 2: Cyfleoedd Cyflogaeth



## A -1 Parc Busnes Tredomen

### 6.4

Mae Parc Busnes Tredomen wedi'i leoli ar ymyl dwyreiniol Ystrad Mynach. Mae'n ganolfan parc busnes/swyddfa uchel ei bri yn cynnwys canolfan swyddfa aml lawr, modern ar gyfer y Cyngor, a thair canolfan busnes o ansawdd uchel at ddefnydd preifat. Mae Canolfan Busnes a Thechnoleg Tredomen, Porth Tredomen a Chanolfan Arloesi a Thechnoleg Tredomen yn cynnig ryw 4,300m2 o ofod busnes wedi'i wasanaethu, llety ar raddfa ac o ansawdd, nad oes ei debyg unrhyw le arall yng Nghaerffili. Yn benodol mae'n cynnig swyddfeydd busnes bach nad ydynt ar gael yn rhwydd yn unrhyw le arall ar Goridor Canol y Cymoedd.

### 6.5

Mae lleoliad y safle ychydig oddi ar y rhwydwaith priffyrdd strategol ar hyd yr A472 yn cysylltu yn uniongyrchol â'r A470, gan hynny yn rhoi mantais strategol. Mae hefyd yn agos at y rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus cyfredol, yn benodol Gorsaf Ystrad Mynach a'r cyfleuster Parcio a Theithio. Yn y tymor hwy, mae wedi'i leoli wrth ymyl llinell reilffordd Cwmbargoed rhwng Ystrad Mynach a Dowlais Uchaf y gellid ei hadfer yn llinell i deithwyr fel rhan o'r Metro ac y cyfeirir ati fel ardal a fyddai'n elwa o arosfa Metro ddynodedig.

### 6.6

Mae cyfle i ehangu ar lwyddiant y parc busnes trwy ddatblygu tir amaethyddol dan berchnogaeth breifat i'r gogledd-orllewin ar gyfer defnydd cyflogaeth. Dylai cyfnod yn y dyfodol ar dir ar ymyl ffin yr anheddiad i ddarparu ardal yn mesur 4.3 He i gyd, gael ei ystyried trwy adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, gweler Ffigwr 3.

### Egwyddorion Datblygu

- Adeiladu datblygiad swyddfa carbon isel, cynaliadwy, fforddiadwy.
- Datblygu gofod swyddfa wedi'i wasanaethu a'i reoli mewn unedau o rhwng 100-200 troedfedd sgwâr ar gyfer busnesau newydd a 300-500 troedfedd sgwâr ar gyfer busnesau twf, gyda'r cysylltiadau band eang diweddaraf.
- Cefnogi a datblygu mentrau newydd trwy ehangu ar y model ICE ar draws y fwrdeistref sirol, gan hyrwyddo ac annog busnesau newydd a thyfu busnesau lleol.
- Archwilio darpariaeth ar wasanaethau cefnogi megis cyfleusterau meithrinfa ac allfeydd bwyd a diod.
- Denu cymudwyr at fodelau trafnidiaeth newydd trwy ddarparu Arosfa Metro newydd.
- Creu cysylltiadau cerddwyr rhwng Parc Busnes Tredomen a Pharc Penallta.

## Ffigwr 3: Ehangu ar Barc Busnes Tredomen





## A - 2 Ty Du, Nelson

### 6.7

Mae Nelson yn anheddiad allweddol o fewn yr ardal Uwchgynllun wedi'i lleoli'n strategol ar goridor yr A472, yn agos at yr A470. Mae safle Ty Du yn cynrychioli cyfle datblygu rhanbarthol sylweddol gyda buddion economaidd a chymdeithasol posibl sylweddol.

### Egwyddorion Datblygu

- Darparu datblygiad cynaliadwy, defnydd cymysg.
- Datblygu 3.8 He o dir cyflogaeth.
- Adeiladu 200 o gartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy) o fewn amgylchedd wedi'i dirlunio.
- Cyfle i ddarparu gwelliannau i gynllun y ffordd.
- Cyfle i ddarparu ar gyfer Isadeiledd Gwyrdd o fewn y safle.
- Archwilio potensial ar gyfer ailddatblygu Siop Co-Op a'r orsaf danwydd fel rhan o'r cynllun.
- Yn y tymor hwy mae potensial i ehangu ymhellach ar y safle i gynnwys tir ychwanegol i'r dwyrain a/neu orllewin i'w ddatblygu i gynnwys gwesty a darpariaeth hamdden, yn amodol ar adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol.
- O ystyried y lleoliad gwych, yn agos at yr A470, dylid annog gwesty cadwyn rhesymol i'r ardal i fanteisio ar yr atyniadau niferus a'r safleoedd cyflogaeth.

## Ffigwr 4: Tŷ Du





## A - 3 Parc Busnes Dyffryn

### 6.8

Mae'r Parc Busnes Dyffryn 40 he wedi'i glustnodi / diogelu at ddefnydd cyflogaeth. Mae wedi'i leoli mewn lleoliad arbennig wrth ymyl yr A469 ac mae yn agos at Orsaf Ystrad Mynach. Mae'r Parc yn cynnwys nifer o unedau o amryw oed, maint a chyflwr yn gweithredu'n bennaf at ddefnydd Dosbarth B. Mae cyfleoedd yn bodoli i ailffocysu sylw ar yr isadeiledd cyfredol ar yr ystâd i greu amgylchedd deniadol ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol.

### 6.9

Mae dwy ardal o dir sydd wedi'u tan ddatblygu o fewn yr ystad.

### 6.10

Mae Ffigwr 5 yn adnabod y ddwy ardal o fewn Parc Busnes Dyffryn.

### Egwyddorion Datblygu

- Datblygu tir i ddarparu ar gyfer naill ai ehangu gan gyflogwr cyfredol neu ddarparu ar gyfer cyflogwr mawr newydd.
- Darparu isadeiledd a gwelliannau amgylcheddol.
- Sefydlu cysylltiadau rhwng Parc Busnes a Gorsaf Ystrad Mynach.

## Ffigwr 5: Parc Busnes Dyffryn




Caerphilly County Borough Council, 100025372, 2018.

## B - CREU'R AMODAU I'R ARDAL DDOD YN GANOLFAN METRO FFYNIANNUS

### 6.11

Mae cyfle gwych i weddnewid Gorsaf Ystrad Mynach i greu ardal eithriadol sy'n croesawu ymwelwyr, pobl fusnes a phreswylwyr fel ei gilydd, gan ddarparu profiad o ansawdd uchel sy'n cyfleu cymeriad y ganolfan strategol hon. Mae'n bwysig bod gorsafoedd o fewn yr ardal yn ddeniadol, yn hygyrch ac yn cynnig dewis amgen gwirioneddol i drafnidiaeth breifat ar gyfer preswylwyr.

### 6.12

Mae Ystrad Mynach wedi dod yn lleoliad strategol ar gyfer buddsoddiad a thwf. Mae cynigion i adeiladu ar yr ardal fel Rhanbarth Busnes ac i uchafu cyfleoedd cyflogaeth. O ganlyniad, mae'n debyg y bydd cynnydd sylweddol yn y galw am deithio i, ac o fewn, Ystrad Mynach, a'r ardal ehangach. Gan hynny mae'r argaeledd ar gyfer teithio llesol a rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus hygyrch yn hanfodol i wasanaethu'r ganolfan bwysig hon.

### 6.13

Mae Polisi TR5.3 y Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod y bydd yr A472 rhwng Ystrad Mynach a Nelson yn gweld lefelau sylweddol o ddatblygiad economaidd a phreswyl. Mae'r llwybr wedi'i gyfyngu gan aliniad a phroblemau adeiladu a chan hynny dylid ystyried opsiynau gwella ar gyfer cynnal effeithlonrwydd y llwybr. Byddai gan gyfleusterau newydd sy'n gostwng y lefel draffig ar hyd y coridor A472 fuddion sylweddol, yn bennaf trwy ostwng amser siwrneion a gostwng y tagfeydd.

### 6.14

Mae cyfle yn bodoli i gyflenwi gwelliannau trafnidiaeth cyhoeddus sydd yn unol â chyflenwi'r Metro, ac yn ategu ato. Gall gwelliannau teithio llesol gyfoethogi ymhellach ac ehangu ar gwmpas y Metro trwy ddarparu cysylltiadau lleol â'r rhwydwaith trafnidiaeth strategol, y gall y cyfan ohonynt gynorthwyo wrth gyflenwi amcanion y Metro.

### 6.15

Mae Uwchgynllun Basn Caerffili yn cynnwys cynnig ar gyfer cyfleuster parcio a theithio mawr yn Llanbradach, sydd â'r potensial i gasglu swm sylweddol o draffig cymudwyr. Er ei fod y tu hwnt i'r Ardal Uwchgynllun, mae cyfleuster o'r fath yn cynnig dewis amgen i'r cyfleusterau parcio a theithio yn Ystrad Mynach neu Hengoed.

## B - 1 Gorsaf Ystrad Mynach

### 6.16

Mae Gorsaf Ystrad Mynach wedi'i lleoli yng nghanol Ystrad Mynach yn agos at lawer o wasanaethau. Mae yna ddau blatfform, un i'r gorllewin o'r llinell reilffordd ar gyfer teithwyr sy'n teithio i'r gogledd ac un i ddwyrain y llinell reilffordd ar gyfer teithwyr sy'n teithio i'r de. Mae rhaglen gwella gorsaf ddiweddar wedi gwella'n fawr ar gyfleusterau aros a swyddfa docynnau'r orsaf ac wedi darparu mynediad lifft rhwng y platfformau. Serch hynny, mae cyfle yn bodoli i weddnewid Gorsaf gyfredol Ystrad Mynach yn ofod hygyrch, deniadol a chroesawgar.

### 6.17

Mae cysylltedd ffisegol a gweledol at ac o'r orsaf angen gwelliant sylweddol. Mae'r brif

fynedfa i'r orsaf, oddi ar Ffordd Nelson, yn wael i gerddwyr. Nid yw'r llwybrau cerdded yn ddigon llydan, ac yn arbennig o gul mewn rhai rhannau, ac nid ydynt yn rhedeg hyd lawn y llwybr gan arwain at groestynnu rhwng cerbydau/cerddwyr.

### 6.18

Yn y gyffordd gyda Ffordd Nelson, mae adeilad gwag mewn lleoliad amlwg. Byddai adfywio'r ardal hon yn cynnig porth mwy deniadol i orsaf Ystrad Mynach a chreu argraff gyntaf well ar gyfer yr ymwelwyr niferus sy'n cyrraedd yno, ynghyd â gwella amwynder gweledol yr ardal. Byddai pont rheilffordd i deithwyr ar Ffordd Nelson yn elwa o is-oleuadau i wella'i heffaith weledol.

### 6.19

Mae rhai arwyddion ar Heol Nelson, wrth y gyffordd â'r orsaf, ond nid oes arwyddion ar y platfformau i gyfeirio ymwelwyr o'r orsaf i'r llu o gyfleusterau a gwasanaethau o bwys yn y dref nac i gyfeirio ymwelwyr â chanol y dref i'r orsaf reilffordd

### 6.20

Yn yr un modd, nid oes arwyddion ar Ffordd Caerffili i gyfeirio ymwelwyr o'r ysbyty, gorsaf heddlu neu Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon i'r orsaf drên. Yn wir, mae cysylltedd rhwng yr orsaf ac eiddo preswyl a gwasanaethau sydd wedi'u lleoli i'r dwyrain yn wael iawn ac yn cael ei danddefnyddio'n fawr. Mae llwybrau anffurfiol sy'n arwain i Barc Ystrad Mynach ac o amgylch y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon a Choleg y Cymoedd. Mae angen am arwyddion er mwyn i'r rhain ddod yn llwybrau mwy ffurfiol.

### 6.21

Mae cyfle sylweddol i ailddiffinio'r gwead trefol, wedi'i alinio â'r rhaglen creu lle Metro, i greu ardal o ansawdd uchel sy'n cynnig profiadau cadarnhaol ac sy'n gwella delwedd Ystrad Mynach fel lle i ymweld a gweithio.

### Egwyddorion Datblygu

- Ailddatblygu mynedfa'r orsaf, oddi ar Ffordd Nelson, wedi'i gynllunio yn unol ag Egwyddorion Rhaglen Creu Lle Metro.
- Er mwyn gwella eglurder rhwng yr orsaf a Heol Caerffili, dylid ystyried cyfleoedd i wella'r llwybrau presennol, gan gynnwys darparu lefelau goleuo addas a'r defnydd posibl o deledu cylch cyfyng, ynghyd ag arwyddion newydd sy'n hawdd eu deall a'u defnyddio
- Mae'n hanfodol i gysylltiadau teithio llesol uniongyrchol rhwng yr hwb metro a chanol y dref, gwasanaethau ar Ffordd Caerffili a Pharc Busnes Tredomen gael eu cynnwys neu eu cyfoethogi fel rhan o unrhyw ailddatblygiad i'r orsaf.

## B - 2 Cyfleuster Parcio a Theithio Estynedig Ystrad Mynach

### 6.22

Mae cyfle o bwys i ddarparu cyfleuster parcio a theithio mawr ychwanegol ar y tir i'r dwyrain o'r orsaf gyfredol. Mae gan hyn y potensial i gasglu cyfran sylweddol o draffig cymudwyr, ac fe allai ostwng lefel y traffig sy'n teithio i'r de i Gaerdydd. Gall tir i'r dwyrain o'r orsaf ddarparu ar gyfer cyfleuster parcio a theithio ychwanegol a allai gynnig capasiti ar gyfer 120 o gerbydau ychwanegol.

### Egwyddorion Datblygu

- Darparu 120 o fannau parcio ceir.

- Parcio ychwanegol i wasanaethu llwybrau trafnidiaeth cyhoeddus gogledd-de a gorllewin-dwyrain sy'n elwa'n llawn o gynigion Metro ar gyfer gwelliannau i'r llinell Rhymni/Caerdydd a hefyd unrhyw gynigion trafnidiaeth cysylltiedig ar draws y cymoedd, ynghyd â rhwydwaith priffyrdd A472.
- Efallai y bydd ail-leoli meysydd chwarae ysgol i gynnig mynediad i'r cyfleuster parcio a theithio arfaethedig. Mae hyn yn cynnig cyfle i gyflenwi darpariaeth maes chwarae gwell.
- Dylid cynllunio'r cyfleuster parcio a theithio newydd yn ofalus yn unol ag egwyddorion Rhaglen Creu Lle Metro.
- Dylid cynllunio'r ddarpariaeth parcio a theithio a mynediad cysylltiedig gyda thirlunio cyfannol o ansawdd uchel i feddalu'r olygfa o'r stryd a gwneud darpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

### 6.23

Mae Ffigwr 6 yn adnabod y cyfleoedd posibl yng Ngorsaf Ystrad Mynach.

## Ffigwr 6: Gorsaf Ystrad Mynach



## B - 3 Cyfleuster Parcio a Theithio Estynedig Hengoed

### 6.24

Nid oes darpariaeth Parcio a Theithio digonol yng Ngorsaf Hengoed. Dylid archwilio cyfleoedd i ddarparu mannau parcio ceir ychwanegol i gasglu cyfran uwch o draffig cymudwyr, a gostwng lefel y traffig sy'n teithio i'r de i Gaerdydd.

## B - 4 Adfer Llinell Cwmbargoed ar gyfer Gwasanaethau Teithwyr

### 6.25

Mae cyfle mawr yn bodoli i ailagor Llinell Cwmbargoed ar gyfer trafnidiaeth teithwyr. Bydd hyn yn cynnig cyswllt trafnidiaeth uniongyrchol, wedi'i neilltuo trwy Ystrad Mynach a Nelson, gan gynnig mynediad gwell o'r gorllewin i Ystrad Mynach. Gallai'r llinell, o'i hailagor, wasanaethu ardal breswylio o bwys Nelson ynghyd ag ardal fusnes Tredomen. Er ei fod y tu hwnt i'r ardal Uwchgynllun, mae cyfle yn bodoli hefyd i ymestyn y llinell i Ddowlais Uchaf ym Merthyr, gan ddarpar cyswllt uniongyrchol o Ystrad Mynach i Ferthyr.

### Egwyddorion Datblygu

- Ailagor Llinell Cwmbargoed ar gyfer trafnidiaeth teithwyr i wella cysylltedd a chynyddu hygyrchedd rhwng Nelson, Ystrad Mynach a'r fwrdeistref sirol ehangach ynghyd â'r rhanbarth De-ddwyrain. Bydd hyn yn hwyluso cyfleoedd datblygu pellach ac yn gyrru twf economaidd o fewn yr ardal.
- Dylai arosfeydd newydd gael eu hystyried yn Nelson a Thredomen.
- Byddai Arosfa Tredomen wedi'i lleoli wrth ymyl Parc Busnes Tredomen, gan ddarparu mynediad uniongyrchol i gyfleoedd cyflogaeth sylweddol.
- Mae ysgogiad o'r newydd bellach wedi'i sefydlu i gyflwyno arosfa rheilffordd yn Nelson. Mae'r datblygiad arfaethedig yn Nhy Du a'r potensial ar gyfer gwasanaeth rheilffordd teithwyr rhwng Ystrad Mynach a Dowlais Uchaf ill dau yn helpu i adnabod a hyrwyddo Nelson fel lleoliad perffaith ar gyfer arosfa newydd. Byddai gorsaf newydd wedi'i lleol i'r dwyrain o Ganolfan Leol Nelson, wrth ymyl y llinell llwythi cyfredol.
- Dylid ystyried darparu lefel ystyrlon o fannau parcio ceir parcio a theithio yn Nelson. Mae cyfle yn bodoli hefyd ar gyfer ailddatblygu ehangach ar dir wrth orsaf newydd Nelson i ddarparu elfen o unedau manwerthu a phreswyl.
- Bydd angen i'r holl orsafoedd ac arosfeydd gael eu cynllunio yn unol â Rhaglen Creu Lle Metro.
- Er budd amwynder gweledol yr ardal, dylid cyfoethogi pont gyfredol Ffordd Nelson gydag is-oleuadau a gwaith paent newydd

### 6.26

Mae Ffigwr 7 yn adnabod gwelliannau rheilffordd posibl.

## B - 5 Rhwydwaith Bws Rhanbarthol

### 6.27

Fel rhan o'r gwelliannau Metro, byddai'r potensial ar gyfer Trafnidiaeth Cyflym Bws Rhanbarthol yn gwella cysylltedd rhwng yr holl ardaloedd trefol, yn enwedig o'r dwyrain i'r gorllewin ar hyd coridor yr A472, a chynyddu mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn y rhanbarth lleol ac ehangach.

# Ffigwr 7: Cyfleoedd Rheilffordd



## B - 6 Cyfleusterau Parcio Beic

### 6.28

Ceisia'r strategaeth sicrhau bod y dref a chanolfannau lleol, canolfannau cyflogaeth a busnes a chanolfannau twristiaeth yn hygyrch trwy ffurfiau trafnidiaeth cynaliadwy. Tra bod y Metro yn darparu ar gyfer teithio strategol, bydd swm sylweddol o siwrneion angen teithio ychwanegol i gyrraedd eu cyrchfan derfynol. Ceisia'r strategaeth y symudiad hwnnw o hybiau Metro ac o fewn yr ardal Uwchgynllun trwy fesurau teithio llesol ac mae hyn yn fwy tebygol o gael ei wneud trwy deithio ar feic. O ystyried hyn, mae angen cyflenwi cyfleusterau parcio beic diogel, sicr a hwylus i bob canolfan drafnidiaeth, o fewn canol trefi a chanolfannau cyflogaeth a busnes er mwyn hwyluso'r symudiad hwn. Dylid cydlynu hyn yn rhanbarthol fel bod y ddarpariaeth wedi'i chydlynu.

### Egwyddorion Datblygu

- Dylai datblygiadau newydd sicrhau eu bod yn darparu cyfleusterau parcio beic priodol a all fodloni'r galw yn awr ac yn y dyfodol.
- Dylid gwneud darpariaeth ym mhob canolfan drafnidiaeth, yn enwedig yn Ystrad Mynach lle bydd y ddarpariaeth yn gwasanaethu aml ddefnyddiau.
- Dylai'r ddarpariaeth fod ar gael yn rhwydd, yn hawdd ei lleoli ac wedi'i lleoli'n gyfleus i'r gyrchfan i annog defnydd.
- Dylai hefyd fod yn ddiogel, yn sicr ac yn weladwy i sicrhau gwyliadwriaeth.
- Dylai'r ddarpariaeth fod wedi'i chysylltu â llwybrau teithio llesol cyfredol lle fo'n bosibl.
- Ar gyfer parcio cyfnod byr (canol tref ayyb) dylid darparu parcio digonol i sicrhau bod lle ar gael yn gyson.
- Ar gyfer darpariaeth parcio hirdymor (canolfannau cyflogaeth, cymudo ayyb) dylai fod gorchudd ar y ddarpariaeth i gynnig amddiffyniad rhag yr elfennau.
- Dylai'r ddarpariaeth gael ei monitro, ei chynnal a'i rheoli yn rheolaidd i sicrhau bod ei hapêl yn cael ei chynnal.
- Dylai cynllun a lleoliad y ddarpariaeth sicrhau cytunedd â defnyddwyr a defnyddiau eraill.
- Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ddarparu cyfleusterau ar gyfer storio ategolion yn ddiogel megis helmedi a golau.

## B - 7 Cynllun Llogi Beic

### 6.29

Er bydd y Metro yn mynd i'r afael â theithio pellach, mae angen sicrhau unwaith y bydd pobl oddi ar y prif lwybrau Metro, gallant barhau â siwrneion o fewn yr Ardal Uwchgynllun trwy ddulliau cynaliadwy. Mater allweddol ar gyfer y teithio hwn yw ei bod hi'n anodd ar hyn o bryd cludo beiciau ar drenau ar oriau brig a chyfyng iawn, os o gwbl, yw'r potensial i wasanaethau bws gludo beiciau.

### 6.30

Mae gan feicio, serch hynny, rôl hynod bwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â materion megis tagfeydd a llygredd a chan hynny mae angen ystyried ffyrdd o fanteisio ar y modd trafnidiaeth hwn. Er y bydd y gwasanaeth

rheilffordd Metro gwell yn darparu ar gyfer peth storfa beicio, bydd yn rhaid ategu at hyn i ddarparu system drafnidiaeth effeithiol ac effeithlon. Un opsiwn ar gyfer y ddarpariaeth hon yw cynllun llogi/rhannu beic. Byddai hyn yn gofyn am system integredig o bwyntiau llogi mewn cyrchfannau allweddol megis ardaloedd cyflogaeth o bwys ynghyd â mewn canolfannau trafnidiaeth (fersiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o gynllun Beiciau Boris yn Llundain[2] ).

## Egwyddorion Datblygu

- Dylid ystyried sefydlu cynllun llogi / rhannu beic ar draws yr ardal Uwchgynllun, gyda chyfleusterau yn cael eu darparu mewn cyrchfannau arwyddocaol, canolfannau trafnidiaeth a chanol y dref. Dylai hyn gynnwys beiciau trydan hefyd.
- Dylid rhoi ystyriaeth i gysylltu'r cyfleusterau llogi beic â defnyddiau cysylltiedig â beicio cyfredol, e.e. llogi beic mewn cyfleusterau parcio beic.
- Dylai'r cynllun sicrhau bod cyfleusterau priodol wedi'u lleoli mewn cyrchfannau, gan gynnwys safleoedd cyflogaeth, i annog defnydd a gostwng cost.

## Mesurau Teithio Llesol Eraill

### 6.31

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn adnabod nifer o welliannau i lwybrau rheiddiol o fewn yr ardal Uwchgynllun a fydd yn gwella mynediad cymunedol a darparu cysylltiadau cerdded a beicio at drafnidiaeth gyhoeddus, twristiaeth, lleoliadau, ardaloedd cyflogaeth ac atyniadau allweddol eraill.

### 6.32

Mae llawer o'r cynigion Cynllun Datblygu Lleol hefyd wedi'u hadnabod fel rhan o Fap Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol Caerffili, sy'n cynnwys 21 cynllun wedi'u dynodi i gynyddu cysylltedd a hygyrchedd ar draws Ystrad Mynach a'r ardal ehangach. Ceisia'r mesurau hyn fynd i'r afael â materion teithio llesol yn y tymor byr. Serch hynny, bydd angen rhaglen barhaus o welliannau i fynd i'r afael â materion i'r dyfodol wrth iddynt godi o ailddatblygiad a thwf y ganolfan strategol.

### 6.33

Cydnabyddir bod defnydd cynyddol ar feiciau trydan yn cynnig dull teithio amgen realistig dros bellteroedd hwy ar gyfer adran ehangach o'r boblogaeth. Bydd estyniad i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, a chysylltiadau ag ef, a llwybrau sy'n addas ar gyfer beiciau trydan yn cael eu hannog.

### 6.34

Mae angen annog defnyddwyr y Llwybr Taf i deithio i Ystrad Mynach a'r ardal ehangach trwy Lwybr 47 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, sy'n cwrdd â'r Llwybr Taf yn Quakers Yard.

## Cysylltiadau Newydd

### 6.35

Mae'r strategaeth hon yn adnabod nifer o gyfleoedd datblygu sylweddol a fydd yn gofyn am gysylltiadau i sicrhau bod yr angen i deithio a gynhyrchir o'r twf yn cael ei ddarparu'n gynaliadwy.

---

[2] https://tfl.gov.uk/modes/cycling/santander-cycles

## Egwyddorion Datblygu

- Dylai ardaloedd o dwf newydd sylweddol gynnwys cynigion teithio llesol a fyddai'n sicrhau bod y safleoedd wedi'u cysylltu, mor uniongyrchol ac effeithlon â phosibl, â chanol Tref Ystrad Mynach a Chanolfan Leol Nelson, gorsaf Ystrad Mynach a'r holl ganolfannau Metro.
- Dylai mesurau teithio llesol ategu at a chyfoethogi llwybrau cyfredol.



## C - MODERNEIDDIO A DATBLYGU YSTRAD MYNACH YN GANOLFAN BUSNES A MASNACHOL FFYNIANNUS

### 6.36

Mae Prif Dref Ystrad Mynach wedi dod yn lleoliad strategol ar gyfer buddsoddiad a thwf. Mae wedi cynyddu mewn pwysigrwydd yn ystod y blynyddoedd diweddar fel rhanbarth busnes allweddol a'r lleoliad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Mae angen i'r ardal sicrhau ei bod yn parhau i ddenu buddsoddiad er mwyn iddi ddod yn ganolfan economaidd is-ranbarthol allweddol sy'n alluog i gefnogi cymunedau lleol.

### 6.37

Mae angen i Ystrad Mynach hyrwyddo ymhellach ei hunaniaeth a manteisio ar ei safle fel canolfan weinyddol y Fwrdeistref Sirol a manteisio ar leoliad prif wasanaethau a chyfleusterau. Er mwyn creu canolfan mwy adnabyddadwy mae angen adeiladu a chyfoethogi darpariaeth y Canol Tref, gwella'r economi gyda'r nos a chynyddu'r ddarpariaeth llety i ymwelwyr.



## C - 1 Canol Tref Ystrad Mynach

### 6.38

Cyfyng yw'r cwmpas ar gyfer ehangiad ffisegol ar Ganol y Dref, serch hynny, er mwyn creu canol y gellir ei adnabod yn well mae angen adeiladu a chyfoethogi'r cynnig yng Nghanol y Dref. Eisoes mae gan ganol y dref nifer o fanwerthwyr annibynnol unigryw a'r math hwn o ddefnydd y dylid ei annog i greu canolfan gwasanaeth a siopa niche a fyddai'n denu preswylwyr cyfagos, ymwelwyr a'r gweithwyr niferus sydd wedi'u lleoli o fewn ac yn gyfagos i'r ardal, i wario arian yng nghanol y dref.

### 6.39

Serch hynny, ac i fynd i'r afael â her siopa ar-lein, mae angen ystyried defnyddiau amrywiol, eraill o fewn canol y dref. Mae swyddfeydd a gwasanaethau yn cyfoethogi ac yn cyfrannu at fywiogrwydd canol tref. Bydd polisïau a ffiniau Canol Tref yn cael eu hystyried trwy adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

### 6.40

Mae'n bwysig ystyried sut y gall yr economi nos gefnogi twf Ystrad Mynach. Mae nifer o dafarnau sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ac sy'n gweini bwyd, yng Nghanol y Dref a'r cyffiniau. Fodd bynnag, mae angen ehangu'r ystod o fwytai a lleoedd bwyta gan fod y rhain yn sylfaenol i wella rôl Ystrad Mynach fel cyrchfan i ymwelwyr a byd busnes. Bydd manteisio ar y diwylliant caffi poblogaidd, ac annog gosod byrddau a chadeiriau y tu allan, yn datblygu awyrgylch mwy cyfandirol gan ymestyn yr amser y bydd pobl yn aros yno

### 6.41

Cydnabyddir bod potensial am wrthdaro rhwng preswylwyr canol tref a darpariaeth estynedig canol tref ar gyfer sefydliadau bwyd a diod sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sn neu arogl. Bydd swyddogaethau Cynllunio, Iechyd Amgylcheddol a Thrwyddedu'r Cyngor yn sicrhau bod amddiffyniad priodol yn cael ei roi i amwynder preswylwyr wrth ystyried priodoldeb cynigion ar gyfer safleoedd neu eiddo penodol.

### 6.42

Yn aml mae tagfeydd traffig, yn enwedig yn

ymwneud â'r safle bws sydd wedi'i lleoli ar Ffordd Bedwlwyn. Byddai ail-leoli'r safle bws a gorfodaeth lem ar barcio ar y stryd tymor byr yn lliniaru ar y tagfeydd tra gallai llif traffig wedi'i ddiwygio h.y. system un ffordd sy'n cyfeirio traffig trwy ganol y dref, gynyddu'r gwariant o fewn busnesau canol tref.

### 6.43

Mae Ffigwr 8 yn adnabod ffin y Canol Tref.

## Egwyddorion Datblygu

- Mae gan Adeilad y Pierhead le amlwg, ac mae'r adeilad allweddol yn gyffredinol ar siâp triongl. Mae'r cefn yn cefnu ar Arcêd Jones ac mae adeiladau â gwydr yn wynebu Ffordd Bedwlwyn a Ffordd Penallta. Mae'r adeilad ar lefel uwch na'r ffordd ac wedi'i amgylchynu gan ardal deras ddeniadol. Tra bod yr adeilad yn ei gyflwr presennol nid yw'r gwireddu ei botensial, byddai'r adeilad yn benthyg ei hun i ddefnydd caffi/bwyty gyda lle i eistedd y tu allan.
- Mae Arcêd Jones yn arcêd draddodiadol gyda chyfle i siopau arddangos eu nwyddau. Mae'r unedau hyn yn addas i werthu bwydydd, gan gynnwys ffrwythau a llysiau a byddai'n lleoliad perffaith i werthu cynnyrch lleol neu fferm.
- Mae angen manteisio ymhellach ar Westy'r Beech Tree, sef adeilad sylweddol mewn lleoliad hynod amlwg yng Nghanol y Dref.
- Mae hen adeilad Banc NatWest yn adeilad allweddol arall sy'n wag ar hyn o bryd. Byddai sicrhau defnydd buddiol o'r adeilad hwn yn arwain at fanteision sylweddol i ganol y dref, ac fe geisir gwneud hyn cyn gynted â phosibl.
- Dylid manteisio ar gyfleoedd i ehangu ar yr economi gyda'r nos o fewn ac o gwmpas canol y dref gyfredol. Byddai caffis/barrau trwyddedig gyda chynnig nos estynedig yn denu ymwelwyr a phreswylwyr i dreulio amser ac arian yng nghanol y dref.
- Annog 'Unedau Dros Dro/Pop Up' er mwyn denu busnesau a chysyniadau newydd o fewn y canol tref i wella bywiogrwydd ac egni'r ardal a chynhyrchu nifer o ymwelwyr.
- Hyrwyddo'r fenter 'Orielau Dros Dro/ Pop Up' lle mae arddangosfeydd dros dro o ffotograffau a gwaith celf yn cael eu harddangos mewn unedau gwag i wella amwynder gweledol a gwneud yr unedau gwag yn fwy atyniadol i ddarpar denantiaid.
- Defnydd gwell ar Sgwâr Siloh ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau
- Dylid ailystyried ffin a pholisïau Canol Prif Dref Ystrad Mynach fel rhan o Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.
- Ystyried ail-leoli'r safleoedd bws a system llif traffig diwygiedig o amgylch canol y dref.

## C - 2 Cyfleusterau Parcio Gwell

### 6.44

Bydd gwelliannau i gludiant cyhoeddus fel rhan o'r Metro yn cynyddu nifer y bobl sy'n teithio i Ystrad Mynach ar gludiant cyhoeddus, ond mae angen mannau parcio

ceir o hyd i wasanaethu canol y dref. Bydd sicrhau bod mannau parcio o ansawdd uchel ar gael yn y lleoliadau cywir, a rheoli traffig o amgylch canol y dref, yn chwarae rhan allweddol o ran yr argraff o ganol y dref, a'i dengarwch, ac yn ei dro dyma elfen sylfaenol wrth gynyddu nifer yr ymwelwyr.

### 6.45

Fel rhan o unrhyw gynlluniau rheoli traffig pellach, mae angen ystyried y materion canlynol:

- Y cynnydd tebygol yn nifer yr ymwelwyr â chanol y dref a nifer a lleoliad y mannau parcio ceir y bydd eu hangen i ddarparu ar gyfer hyn;
- Dulliau parcio arloesol i wneud y defnydd gorau o dir;
- Yr angen i godi tâl am barcio, lefel y costau parcio, a'r dulliau talu. Mae costau parcio yn anghymhelliad mawr, a bydd angen ystyried cyflwyno costau yn ofalus mewn perthynas â'r amcanion adfywio;
- Pwyso a mesur yr angen i ddarparu

## Ffigwr 8: Canol Tref Ystrad Mynach



mannau parcio i breswylwyr yn unig a'r angen i ddarparu parcio tymor byr ar gyfer busnesau lleol;

- Gorfodi rheolau mewn ardaloedd parcio i breswylwyr yn unig i atal parcio anghyfreithlon. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgymryd â Dyletswyddau Gorfodi Parcio Sifil ym mis Ebrill 2019.
- Dylid amlygu cyfleoedd ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan mewn ardaloedd parcio presennol neu arfaethedig.

## C - 3 Tir i'r Gogledd o'r Royal Oak

### 6.46

Ceir cyfle ailddatblygu allweddol ar y safle trionglog i'r de o'r Stryd Ganolog, i'r gogledd o dafarn y Royal Oak. Ar hyn o bryd mae cymysgedd o ddefnyddiau masnachol yn gweithredu o'r safle. Fodd bynnag, mae'r safle'n weladwy iawn o ffordd strategol yr A472, sy'n rhedeg yn agos iawn i ffin orllewinol y safle. Mae angen ailddatblygu'r ardal yn helaeth i wella ei ymarferoldeb.

### Egwyddorion Datblygu

- Yn y tymor hwy, byddai ailddatblygiad cynhwysfawr o'r safle hwn yn gwella cyfoeth gweledol ac yn uchafu ar botensial y safle allweddol hwn mewn lleoliad mor amlwg.

## C - 4 Tir i'r gogledd o Barc Busnes Dyffryn

### 6.47

Mae'r safle mewn lleoliad gwych, wrth ymyl porth cerbydau allweddol i Ystrad Mynach ac mewn safle da i wasanaethu Parciau Busnes a nifer o wasanaethau o fewn Ystrad Mynach. Mae datblygu'r ardal hon o dir ar gyfer gwesty a thafarn yn cynnig cyfle gwirioneddol i gynyddu'r cynnig twristiaeth o fewn Ystrad Mynach a fydd yn ei dro yn cynyddu gwariant ymwelwyr ac yn darparu cyfleoedd swyddi o fewn y sector gwasanaeth. Er bod hyn yn groes i'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, dylid ystyried defnyddiau o'r fath fel rhan o adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

### Egwyddorion Datblygu

- Yn amodol ar adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, byddai'r safle yn benthyg ei hun i westy rhesymol a allai ddarparu ar gyfer teithiau busnes ynghyd â chynyddu'r amser y bydd ymwelwyr sydd wedi ymweld ag atyniad o fewn yr ardal yn aros.
- Gallai'r safle hefyd ddarparu ar gyfer tafarn a bwyty teuluol sydd ei hangen yn fawr a fyddai'n denu ymwelwyr a hefyd yn ymestyn ar arhosiad ymwelwyr â'r ardal.
- Mae'r safle wedi'i lleoli'n berffaith ar gyfer bwyty i gyd-fynd neu siop goffi gyda chyfleuster gyrru trwodd.

# Ffigwr 9: Tir i'r gogledd o Barc Busnes Dyffryn



## D - CREU CLWSTWR CHWARAEON, HAMDDEN AC ADDYSG RHAGOROL

### 6.48

Y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon yw cyfleuster chwaraeon blaenllaw'r fwrdeistref sirol. Mae cyfle yn bodoli i ehangu ar y safle cyfredol a chreu cyfleusterau o safon fyd-eang er mwyn caniatáu i'r ganolfan gynnal digwyddiadau mwy a gemau rhyngwladol gan gynyddu'r effaith gadarnhaol ar Ystrad Mynach a chreu effeithiau deillio ar gyfer yr economi sylfaenol.

### 6.49

Mae'r tir amgylchynol yn cynnwys nifer fawr o ddefnyddiau, yn cynnig cyfle i ehangu ar gyfleusterau cyfredol y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon i greu Pentref Chwaraeon.

## D - 1 Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon a'r tir amgylchynol

### 6.50

Dylai'r safle fod yn amodol ar uwchgynllun a fydd yn ystyried y defnyddiau gorau ar gyfer y tir i gyd.

### Egwyddorion Datblygu

- Creu Pentref Chwaraeon amlddisgyblaeth.
- Cynyddu capasiti eistedd o fewn y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon o 1,152 i 5,000 i greu cyfleuster ysbrydoledig a fydd yn denu ac yn hwyluso rygbi ar raddfa fawr, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn rhyngwladol i bob oed a rygbi benywaidd. Bydd capasiti cynyddol yn y cyfleuster yn cefnogi twf Rygbi Cymru y tu allan i'r brif ddinas trwy ddarparu'r gallu i gynnal gemau rhyngwladol ar raddfa ehangach a gemau cynrychioladol eraill. Byddai'r gallu i gynnal digwyddiadau diwylliannol a/neu gyngherddau ar y safle yn cael ei hwyluso hefyd trwy gynyddu'r capasiti.
- Darpariaeth Ysgubor maint llawn dan do gydag arwyneb chwarae 3G IRB22 dan do o safon fyd-eang. Bydd hyn yn cefnogi chwaraeon lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a fydd yn cefnogi ac yn datblygu cyfleoedd chwaraeon trwy weithio mewn partneriaeth gyda Choleg Y Cymoedd, Coleg Gwent, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, clybiau/sefydliadau cymunedol a Dreigiau Casnewydd Gwent.
- Creu cromen denis modern i gynnig cyfleusterau tenis o safon ryngwladol.
- Darparu allfeydd bwyd a diod i wella'r ddarpariaeth i ymwelwyr.
- Cynnwys a chyfoethogi Parc Ystrad Mynach i gynnwys pad sblash neu nodwedd ddwr, cyfarpar campfa awyr agored, cyfleusterau toiledau a bar byrbrydau.
- Annog gweithio mewn partneriaeth gyda Choleg Y Cymoedd i rannu adnoddau.
- Datblygu cyrsiau newydd yng Ngholeg Y Cymoedd i hyfforddi sgiliau crefftau newydd, e.e. codi waliau sych, tirlunio, plannu coed.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu yng Ngholeg Y Cymoedd.
- Caniatáu ar gyfer ehangu Canolfan Adnoddau ac Ysgol Trinity Fields.

- Gwella'r cysylltedd ffisegol rhwng y Clwstwr a Chanol Tref Ystrad Mynach a Gorsaf Ystrad Mynach.
- Gwella arwyddion i gyfeirio ymwelwyr rhwng y cyfleusterau a Chanol Tref Ystrad Mynach a Gorsaf Ystrad Mynach.
- Gwella'r sgwrs rhwng y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon a phreswylwyr lleol a busnesau lleol, yn enwedig o fewn Canol Tref Ystrad Mynach, i wella digwyddiadau hyrwyddo.
- Cyfoethogi cysylltiadau â darparwyr lletygarwch a llety yn lleol.
- Canolfan bosibl ar gyfer llogi beiciau.

## Ffigwr 10: Cyfleusterau Cyfredol



## E - CREU CYRCHFAN I YMWELWYR HYGYRCH A BYWIOG

### 6.51

Mae cyfle gwych i weddnewid yr ardal Uwchgynllun i greu cyrchfan eithriadol i dwristiaid ynghyd ag ystod amrywiol o lety, canolfannau manwerthu ffyniannus ac economïau cryf gyda'r dydd a gyda'r nos.

### 6.52

Mae'r ardal Uwchgynllun yn brolio nifer o atyniadau treftadaeth a gwledig, gweler Ffigwr 11, ynghyd â'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon flaenllaw. Er bod twristiaeth eisoes yn atyniad i'r ardal, mae angen datblygu'r cynnig i dwristiaid er mwyn ehangu ar ei apêl.

### 6.53

Mae nifer o fentrau allweddol ar draws yr ardal a allai:

- cynyddu buddion atyniadau treftadaeth, gwledig a chwaraeon o safbwynt twristiaeth;
- helpu i godi proffil yr ardal Uwchgynllun fel cyrchfan i dwristiaid;

**Ffigwr 11: Atyniadau i Dwristiaid**





- cynyddu gwariant yn yr ardal; cynyddu'r amser a dreulir yn yr ardal; a,
- chreu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer preswylwyr lleol.

## ATYNIADAU I DWRISTIAID

### E - 1 Plas Llancaiach Fawr

### 6.54

Mae Plas Llancaiach Fawr yn un o dri phrif atyniad i dwristiaid yn y fwrdeistref sirol. Mae'n cynnwys Plas sydd wedi'i adfer, Canolfan i Ymwelwyr, bloc addysg ac ardal fawr o dir agored. Cynlluniwyd yr Adeilad Rhestredig Gradd I i'w amddiffyn yn rhwydd yn ystod teyrnasiad trafferthus brenhinoedd a breninesau Tuduraidd ac mae'n un o'r enghreifftiau gorau o blas rhannol amddiffinedig yng Nghymru heddiw. Mae'r Plas wedi'i adnewyddu'n llawn yn ddiweddar gyda grisiau a lifft newydd wedi'u hychwanegu i'r cefn i gynyddu hygyrchedd i ymwelwyr. Ar hyn o bryd mae'n gweithredu fel amgueddfa fyw. Mae'r Ganolfan i Ymwelwyr yn cynnwys caffi ac yn darparu neuadd fawr sy'n cynnal digwyddiadau. Mae'r

bloc addysg yn set o ystafelloedd addysgu a dysgu wedi'u hadeiladu i'r diben a ddefnyddir ar gyfer ysgolion ac anghenion addysgol eraill.

**6.55**

Mae'r ardal agored gerllaw yn cael ei defnyddio ar gyfer digwyddiadau achlysurol, megis yr Eisteddfod, a gynhaliwyd yno yn 2016.

**6.56**

Mae'n atyniad gwych, yn cynnal ystod eang o ddigwyddiadau ac achlysuron, gan gynnwys Teithiau Ysbrydion, a Sioe Amaethyddol Bedwellty (sy'n arddangos menter wledig a diwylliant ar draws y fwrdeistref sirol a thu hwnt) a swyddogaethau megis priodasau a chynadleddau. Serch hynny, mae angen datblygu llety dros nos ar y safle, neu wrth ei ymyl, i gryfhau'r cynnig i dwristiaid a chynyddu apêl y lleoliad ar gyfer digwyddiadau ac achlysuron.

**6.57**

Byddai'r safle yn benthyg ei hun i westy bwtic/annibynnol o safon uchel a fyddai'n atgyfnerthu'r atyniad fel cyrchfan treftadaeth a thwristiaeth arwyddocaol yn rhanbarthol ynghyd â chyflymu twf busnes o fewn ac o amgylch yr ardal Uwchgynllun.

**6.58**

Mae cyfle hefyd i ddarparu rhyw ffurf ar lety neu glampio o fath cwt/pod.

## Egwyddorion Datblygu

- Byddai darparu gwesty bwtic/annibynnol o safon uchel yn cynnwys ystafelloedd yn llawn cymeriad, wedi'u haddurno'n unigol yn unol â chyfnod yr eiddo, yn cynyddu apêl y lleoliad ar gyfer swyddogaethau, gan gynnwys priodasau a chynadleddau a chynyddu arosiadau dros nos.
- Byddai darparu podiau a chytiau ar dir gerllaw i'r dwyrain o'r Plas hefyd yn gwella'n sylweddol ar y farchnad ymwelwyr sy'n 'aros' o fewn y rhanbarth ac yn rhoi hwb i nifer yr ymwelwyr o fewn yr atyniad i dwristiaid cyfredol.
- Datblygu ymhellach adeiladau allan i greu cyfres o gyfleusterau deongliadol ac addysgol i ymwelwyr.
- Cynyddu'r rhaglen achlysuron a digwyddiadau i atgyfnerthu Plas Llancaiach Fawr fel lleoliad digwyddiadau o bwys yn rhanbarthol.

## E - 2 Gwesty Neuadd Llechwen

**6.59**

Mae Gwesty Mawreddog Neuadd Llechwedd wedi'i lleoli o fewn, ond hefyd ar ymyl, yr ardal Uwchgynllun. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru o dros £400,000 wedi'i ddyfarnu yn ddiweddar i ddatblygu ymhellach ar y lleoliad a darparu adnoddau sba a hamdden a fydd yn gwella perfformiad y cyfleuster ac yn cryfhau'r cynnig twristiaeth o fewn y rhanbarth.

**6.60**

Serch hynny, mae ei leoliad ychydig oddi ar yr A470 yn golygu na fydd llawer o ymwelwyr hyd yn oed yn teithio trwy fwrdeistref sirol Caerffili. Mae angen, yn benodol yng ngoleuni'r ailddatblygiad arfaethedig, i hyrwyddo'r lleoliad hwn a hefyd i annog ymwybyddiaeth gynyddol o atyniadau eraill o fewn yr ardal Uwchgynllun i annog teithiau cysylltiedig i ymwelwyr.

## Ffigwr 12: Caer Rufeinig Gelligaer



## E - 3 Caer Rufeinig Gelligaer

### 6.61

Darganfuwyd gweddillion Caer Rufeinig (a alwyd gynt yn Gaer Fawr) yng Ngelligaer rhwng 1899 a 1913 ynghyd â system goeth o faddondai, odynau crochenwaith a mynwent. Mae'r tir sy'n gorwedd gerllaw'r safle wedi'i adnabod fel tir parêd Rhufeinig. Mae Gaer Fawr yn hysbys fel y safle lle'r oedd y gaer gerrig wedi'i hadeiladu, rhywbryd yn ystod degawd cyntaf yr ail ganrif. Honnir fod y gweddillion hyn ymhlith yr enghraifft orau o'u math yn Ewrop.

### 6.62

Mae gwaith wedi'i gynnal yn yr ardal uniongyrchol i dynnu sylw at bwysigrwydd y Gaer Rufeinig ei hun, gan gynnwys gosod seddi a phaneli dehongli a gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr.

### 6.63

Er bod y safle wedi'i ddefnyddio ar gyfer pori ceffylau, mae'r safle o bwysigrwydd eithriadol o ran hanes a threftadaeth Cwm Rhymni.

### Egwyddorion Datblygu

- Cynyddu proffil y gaer ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd
- Ehangu ar gyfleusterau dehongli
- Ystyried cloddio archeolegol
- Cynnwys y gaer ynghyd ag atyniadau hanesyddol cyfagos eraill o fewn y llwybr treftadaeth

## E - 4 Trac Cwn y Cwm

### 6.64

Mae Stadiwm Cwn y Cwm / Valley Greyhound Stadium yn gyfleuster hir sefydlog sydd wedi'i leoli i'r de-ddwyrain o Ystrad Mynach. Mae'r cyfleusterau ar y safle wedi'u heangu a'u gwella yn ddiweddar a bellach yn cynnwys trac rasio milgwn, stadiwm yn cynnwys clwb ac ardal wylio, adeilad swyddfa a chyfleusterau toiledau. Mae maes parcio wedi'i leoli rhwng y safle a Chlwb Pêl-droed Athletau Tredomen i'r dwyrain.

### 6.65

Credir mai dyma'r unig drac milgwn sydd ar ôl yng Nghymru. Mae wedi'i leoli yn ddelfrydol i fanteisio ar yr ymwelwyr niferus â'r ardal ac mae cyfle i ehangu a chynyddu ar botensial y safle fel cyrchfan i dwristiaid. Ymhellach, mae cyfle i gydweithio rhwng y safle hwn a datblygiad gwesty a bwyty posibl ar dir cyfagos fel y nodir yn Ffigwr 13.

## E - 5 Digwyddiadau

### 6.66

Mae nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus o fewn yr ardal Uwchgynllun bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys Sioe Amaethyddol Bedwellty, llawer o ddigwyddiadau ym Mharc Penallta a Park Run Penallta. Mae angen i gynyddu cysylltedd rhwng y digwyddiadau a'r prif ganolfannau i gynyddu'r amser aros.

## E - 6 Twristiaeth Antur

### 6.67

Mae twristiaeth antur yn yrrwr allweddol ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac mae'r ardal Uwchgynllun mewn safle da i uchafu ar hyn trwy ddarparu llety a chyfleusterau i gefnogi cerdded, beicio, marchogaeth a dringo mynyddoedd. Mae Llwybr 47 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

## Ffigwr 13: Trac Cwn y Cwm



(Casnewydd i Abergwaun) yn teithio trwy Ystrad Mynach a Nelson. Mae'r ardal mewn safle da hefyd i wasanaethu canolfannau beicio mynydd yn Cwmcarn Forest Drive a Bike Park Wales ym Merthyr Tudful, y ganolfan dringo Rock UK yn Nhrelewis, the Mountain View Ranch a Rockwood Riding Centre, sydd wedi'u lleoli ar Fynydd Caerffili. Dylid annog darpariaeth ar ystod ehangach o lety, gan gynnwys bythynnod, gwersylla a glampio, mewn lleoliadau priodol o fewn yr ardal Uwchgynllun a'u cefnogi.

### E - 7 Llwybr Treftadaeth

**6.68**

Dylai llwybr twristiaeth sy'n cysylltu safleoedd ac adeiladau allweddol o ddiddordeb fod yn rhan annatod o'r strategaeth dwristiaeth. Dylai gynnig cyswllt rhwng Clawdd Senghenydd, Y Cwrt Pêl-Llaw, Plas Llancaiach Fawr, Caer Rufeinig Gelligaer, Comin Gelligaer, Parc Penallta a Traphont Hengoed, ond hefyd archwilio mannau eraill o fewn y fwrdeistref sirol megis Castell Caerffili, Cofeb Genedlaethol Glowyr Cymru a'r Ty Weindio.

### E - 8 Llety Twristiaeth

**6.69**

Mae diffyg amlwg o lety i dwristiaid yn yr ardal Uwchgynllun. Mae angen datblygu safleoedd ar gyfer ystod amrywiol o lety newydd i gefnogi'r hwb Metro, sy'n uchafu ar gyfleoedd cyflogaeth, a'r Pentref Chwaraeon a fydd yn denu llawer o ymwelwyr a fydd eisiau aros yn yr ardal.

**6.70**

Darperir llety cyfredol i dwristiaid gan Neuadd Llechwen a dau Westy, y cyfan wedi'u lleoli o amgylch Nelson.

**6.71**

Mae potensial i ehangu'n sylweddol ar y cynnig cyfredol gyda'r cynigion a ganlyn:-

- Plas Llancaiach Fawr – gwesty bwtic a phodiau/cytiau
- Tir yn Nh Du – gwesty cadwyn rhesymol
- Tir i'r gogledd o Barc Busnes Dyffryn – gwesty cadwyn rhesymol
- Parc Penallta – darpariaeth gwersylla / glampio

## F - MANTEISIO AR FWYNHAD YR ASEDAU GWYRDD NIFERUS O FEWN YR ARDAL UWCHGYNLLUN A'R CYFFINIAU

**6.72**

Mae'r Ardal Uwchgynllun yn cynnwys llawer o fannau gwyrdd ac agored a gall cyfoethogi ac annog defnydd ar yr ardaloedd hyn wella ansawdd bywyd a hyrwyddo lles ynghyd ag amrywio'r cynnig twristiaeth.

### F - 1 Isadeiledd Gwyrdd

**6.73**

Ni ellir rhoi digon o bwyslais ar fuddion Isadeiledd Gwyrdd, rhwydwaith sy'n cynnwys ystod eang o fannau gwyrdd a nodweddion amgylcheddol, i ddefnyddwyr ynghyd â bioamrywiaeth a thirlun. Mae Isadeiledd Gwyrdd yn cynnwys parciau a gerddi, gofod amwynder, mannau gwyrdd naturiol a rhannol naturiol a choridorau gwyrdd ac mae'n cynnwys rhandiroedd, mynwentydd, mynwentydd eglwysi, a chyrsiau golff.

### Egwyddorion Datblygu

- Paratoi Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd



i gynnwys rhaglen 20 mlynedd ar gyfer integreiddio, datblygu a rheoli rhwydwaith o isadeiledd gwyrdd, wedi'i gefnogi gan gynllun cyflenwi a gweithredu pum mlynedd o hyd.

- Cefnogi a diogelu'r amgylchedd naturiol a threftadaeth yr ardal.
- Sicrhau bod isadeiledd gwyrdd wedi'i fewnosod yng nghynllun y datblygiad newydd
- Datblygu'r cynnig hamdden

## Parciau a Gerddi

### 6.74

Mae'r Ardal Uwchgynllun yn cynnwys Parc Penallta a Pharc Coedwig Nelson Wern, gweler Ffigwr 14, ynghyd â nifer o barciau trefol gan gynnwys Parc Ystrad Mynach. Mae gan yr ardaloedd hyn botensial i gael eu cyfoethogi i wella'r cynnig i dwristiaid a'r amgylchedd naturiol.

## F - 2 Parc Penallta

### 6.75

Ymhlith y cyfleusterau yn yr hyfryd Parc Penallta y mae llwybr cerdded iach, llwybrau â chyferbwyntiau, llwybrau beicio, canolfan addysg fechan, llwybr marchogaeth, celf gyhoeddus a maes parcio ynghyd ag un o gerfluniau daear ffigurol mwyaf y DU, 'Sultan' y ferlen pwll. Mae'r parc wedi'i ddynodi hefyd yn ardal Awyr Dywyll ar gyfer seryddiaeth.

### 6.76

Gyda dros 250,000 o ymwelwyr yn barod bob blwyddyn gall y parc ddod yn atyniad cryf i ymwelwyr sy'n gwasanaethu nid dim ond y gymuned leol ond hefyd yr ardal ehangach. Mae cyfleoedd yn bodoli i ddenu mwy o ymwelwyr trwy wella'r profiad cyfredol.

## Egwyddorion Datblygu

- Mae tir wedi'i adnabod yn y fynedfa i Barc Penallta, oddi ar yr A472 strategol ar gyfer Canolfan i Ymwelwyr newydd. Byddai adeiladu Canolfan i Ymwelwyr niwtral o ran carbon yn caniatáu ar gyfer digwyddiadau addysgol ac ychwanegol a chynnig cyfle i hyrwyddo atyniadau eraill yn yr ardal.
- Mae ehangu math o lety sy'n cael ei gynnig yn gyfle masnachol posibl ar gyfer

# Ffigwr 14: Parc Penallta a Pharc Coedwig Nelson Wern



twristiaeth o fewn y fwrdeistref sirol a dylid manteisio ar 'glampio' sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd trwy gyflwyno cyfleusterau glampio a gwersylla a fyddai'n denu ymwelwyr a'r ystod amrywiol o lety sydd ei angen yn fawr a fyddai'n cynyddu hyd yr arhosiad yn yr ardal.

- Gwella cysylltedd â Chanol Tref Ystrad Mynach a Chanolfan Leol Nelson trwy archwilio'r potensial ar gyfer bysiau gwennol ar gyfer, ac yn ystod, digwyddiadau
- Cynyddu nifer o ddigwyddiadau a gynhelir yn y Parc a sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei hyrwyddo'n dda
- Gwella cysylltiadau i gerddwyr rhwng Parc Penallta a Gelligaer a Nelson
- Darparu pont gerdded a fyddai'n dirnod i ddarparu mynediad uniongyrchol o'r Parc i Barc Busnes Tredomen
- Cysylltu'r tirluniau hanesyddol gyda'r Parciau Gwledig fel rhan o deithiau cerdded â thema
- Cerdded ar Ddwr – Cyfoethogi teithiau cerdded estyll a gweithiau ecolegol ar lefelau is y Parc
- Dringo Cymdeithasol – sefydlu amryw nodweddion dringo ar draws y Parc
- Cyfoethogi cyfleusterau pysgota cyfredol
- Archwilio cyfleoedd megis sorbio
- Archwilio cyfleoedd ynni adnewyddadwy
- Archwilio cyfleusterau compostio gwastraff cwn

## F - 3 Parc Coetir Nelson Wern

### 6.77

Mae cyfleusterau yn cynnwys amwynderau ieuenctid megis parc sglefrio, trac BMX, lloches ieuenctid, cae chwaraeon ac ardal chwarae fodern. Mae'r rhain wedi'u cyfuno gyda gwaith celf creadigol, dolydd ac ystod amrywiol o gynefinoedd naturiol. Mae cyfleoedd i gyfoethogi apêl yr ardal hon sydd eisoes yn boblogaidd.

## Egwyddorion Datblygu

- Gwella cysylltiadau i gerddwyr rhwng Parc Coedwig Nelson Wern a Pharc Penallta i annog symudiad ymwelwyr rhwng y Parciau.
- Gwelliannau i gyfleusterau ieuenctid
- Uwchraddio'r llwybrau estyllod cyfredol dros y tir gwlyb
- Archwilio cyfleoedd megis sorbio
- Cysylltu tirluniau hanesyddol â'r Parciau Gwledig fel rhan o deithiau cerdded â thema

## Coridorau Gwyrdd

### 6.78

Mae coridorau gwyrdd yn cynnwys afonydd a'u glannau, gwrychoedd, hawliau tramwy, llwybrau beicio, llwybrau i gerddwyr a chyn lwybrau trafnidiaeth (megis llinellau rheilffordd). Mae nifer o gyfleoedd i wella'r rhwydwaith o goridorau gwyrdd i ddarparu rhodfeydd i bobl leol ac ymwelwyr.

## Egwyddorion datblygu

- F - 4 Cwblhau Taith Gerdded Glan Afon Rhymni i ddarparu llwybrau cerdded wedi'u tirlunio gyda phwyntiau arsylwi.

## Ffigwr 15: Llwybrau Cerdded



Byddai darparu campfa awyr agored ar hyd y llwybr yn cynyddu'r defnydd ac yn ychwanegu diddordeb.

- F - 5 Byddai cyfoethogi Taith Gerdded Cefnffordd Cwmni Rhymni yn mynd ag ymwelwyr o Barc Penallta i Gelligaer, Hengoed, Mynydd Eglwysilan ynghyd â Pharc Cwm Darran, Caerffili, Bedwas a Rhydri.
- F - 6 Byddai hyrwyddo gwell ar Gren Way yn denu ymwelwyr i weld delweddau enwog Gren gan gynnwys Traphont Maesycwmmer.

## Mannau Gwyrdd Amwynder

### F - 7 Tir Comin

### 6.79

Mae Tir Comin Eglwysilan yn dirlun unigryw a chyfareddol gyda chyfoeth o asedau hanesyddol sydd angen eu diogelu gan gynnwys Clawdd Senghennydd ac ystod o safleoedd claddu oed efydd. Mae'r tirlun yn cynnig man gwyrdd allweddol sy'n cael ei ddefnyddio gan gerddwyr, beicwyr a marchogwyr ceffylau.

### 6.80

Mae rhan o Dir Comin Gelligaer a Merthyr hefyd yn disgyn o fewn yr ardal Uwchgynllun. Fel Tirlun Hanesyddol, mae'r tir comin yn cynnwys ystod o safleoedd archeolegol pwysig. Fel ardal boblogaidd i gerddwyr, beicwyr a marchogwyr ceffylau, mae'r tirlun yn darparu ardal hamdden hanfodol i breswylwyr ac ymwelwyr. Mae'r ardal sylweddol o gefn gwlad â'r potensial i fod yn gydran o bwys ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd.

## Egwyddorion Datblygu

- Cyfoethogi Tir Comin
- Mynd i'r afael â materion ar draws y tirlun gan gynnwys tipio anghyfreithlon, taflu sbwriel a cherbydau oddi ar y ffordd anghyfreithlon.
- Diogelu asedau treftadaeth unigryw.

### F - 8 Y Graig, Hengoed

### 6.81

Mae'r ardal o'r enw Y Graig yn ardal werdd wedi'i lleoli ar ochr ddwyreiniol Cylla Brook, i'r dwyrain o Gwm Calon. Mae pont gerdded yn croesi'r nant sy'n caniatáu mynediad i gerddwyr o Hengoed a Chefn Hengoed i Gwm Calon. Mae'r llechwedd wedi dioddef o ddifrod tân dros fisoedd yr haf. Mae cyfleoedd posibl ar gyfer yr ardal fawr ddeniadol hon o dir:

## Egwyddorion Datblygu

- Archwilio dulliau atal tân megis plannu a bylchiadau tân er mwyn atal tân rhag lledaenu, yn enwedig ger tai.
- Darparu llwybrau cerdded/beicio gwell i gysylltu Hengoed a Chefn Hengoed â'r llwybr troed newydd a grëwyd yng Nghwm Calon. Mae hyn yn cysylltu'r ardal â Glyn-gaer, i'r gogledd, a bydd yn cysylltu ag Ystrad Mynach a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol i'r de ar ôl cwblhau'r llwybr. Bydd hyn yn caniatáu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth yn Ystâd Ddiwydiannol Penallta a Pharc Busnes Tredomen, yn ogystal â Chanol Tref Ystrad Mynach a Pharc Penallta.

[3] http://wappingwharf.co.uk/gallery/cargo/

## G - CWBLHAU ADFYWIO CYN SAFLE GLOFAOL PENALLTA

### 6.82

Mae cyn safle Glofa Penallta wedi'i lleoli'n berffaith i gefnogi Canol Tref Ystrad Mynach a hefyd i elwa o'r cysylltiadau rheilffordd gwych a'r cyfleoedd cyflogaeth niferus o fewn yr ardal gyfagos. Mae cyfran fawr o gyn safle glofaol wedi'i hailddatblygu gyda datblygiad tai o ansawdd uchel sy'n cynnwys ysgol. Mae cyfleoedd allweddol yn dal i fodoli i gwblhau adfywio'r safle gyda'r gwaith adfer o safon uchaf gyda gwarchodaeth yn ystyriaeth bwysig.

### 6.83

Mae gweddnewidiad ar y safle hyd yma wedi gweld datblygiad o'r hyfryd Parc Penallta a chynllun datblygu tai arloesol Cwm Calon sy'n cynnwys adeiladau/strwythurau rhestredig ac amwynderau ac isadeiledd lleol cysylltiedig.

### 6.84

Mae caniatâd wedi'i roi yn ddiweddar ar gyfer adeiladu 48 o anheddau ar dir wrth ymyl y cyn adeiladau glofaol.



## Ffigwr 16: Cyn Glofa Penallta



### 6.85

Mae dau adeilad rhestredig sylweddol nad ydynt wedi'u trosi eto ynghyd ag ardal o dir sydd wedi'i hamlinellu ar gyfer cyfle masnachol nad yw wedi'i ddatblygu hyd yma.

## G - 1 a G - 2 Trosi Neuadd Bwer ac Adeilad Baddondy

### 6.86

Mae'r Neuadd Bwer a'r Adeilad Baddondy yn ddau o'r adeiladau rhestredig olaf sydd angen eu trosi o hyd. Mae'r ddau yn asedau treftadaeth sylweddol gyda chaniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig i'w trosi yn unedau preswyl.

### 6.87

O ystyried lleoliad amlwg a strategol, ac arwyddocâd hanesyddol yr adeiladau, mae'r safle yn cynnig cyfle gwirioneddol i greu datblygiad defnydd cymysg o ansawdd uchel yn cynnwys tai ynghyd â defnyddiau cyflogaeth. Mae cwmpas i weithio gyda'r sector preifat i greu cynigion defnydd cymysg, gan ddod â chwa o awyr iach i'r amgylchedd hanesyddol hwn.

### Egwyddorion Datblygu

- Trosi'r adeiladau rhestredig sy'n weddill ar gyfer tai ynghyd â defnyddiau manwerthu a chyflogaeth gyda ffocws ar entrepreneuriaeth, canolfannau digidol/ technegol a gweithdai ar gyfer busnesau llai.
- Galluogi creu amgylchedd a chlwstwr "byw / gweithio", sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau ehangach a chyfleoedd hyfforddi gyda choleg addysg bellach gerllaw, Coleg y Cymoedd. Cymoedd.

## G - 3 Tir yn Winding Wheel Lane

### 6.88

Cafodd ardal o dir triongl wedi'i lleoli i ymyl orllewinol datblygiad Cwm Calon, wedi'i dyrannu wrth Winding Wheel Lane, ei hadnabod yn Uwchgynllun gwreiddiol ar gyfer datblygiad Cwm Calon fel ardal sy'n addas ar gyfer cyflogaeth a defnyddiau manwerthu sy'n atodol i'r gymuned newydd.

### Egwyddorion Datblygu

- Mae potensial i greu datblygiad arloesol yn y lleoliad amlwg hwn sy'n agos at strwythurau rhestredig trawiadol Winding Wheel. Byddai enghraifft o ddatblygiad o'r fath yn fersiwn ar raddfa fach o 'Cargo' Wapping Wharf Bryste gan ddefnyddio cynhwysyddion llongau wedi'u trosi.
- Gallai defnyddiau addas gynnwys storfa fwyd fechan, Tafarn, bwyty/caffi a siop cludfwyd. Byddai croeso hefyd i swyddfeydd sy'n darparu gwasanaethau lleol a chyfleoedd cyflogaeth.
- Byddai datblygiad o'r fath yn cwblhau adfywio cyn Glofa Penallta ac yn peri amgylchedd preswyl mwy cynaliadwy ac annibynnol.

## H - SCEFNOGI DATBLYGIAD TAI, GAN GYNNWYS TAI FFORDDIADWY, AR SAFLEOEDD TIR LLWYD A MAES GLAS MEWN LLEOLIADAU CYNALIADWY

### 6.89

Mae'r strategaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn hyrwyddo datblygiad ar dai newydd ar safleoedd tir llwyd a maes glas o fewn yr ardal Uwchgynllun. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig wrth ddatblygu cyn Glofa Penallta, gyda nifer o safleoedd yn cael eu tanddefnyddio wedi'u datblygu yn ystod y blynyddoedd diweddar. Er bod y rhain wedi gwneud cyfraniad pwysig i dai yn yr ardal, mae'r angen yn parhau am dai fforddiadwy.

### 6.90

Mae nifer fechan o safleoedd tir llwyd sy'n cynnig cyfle am ddatblygiad tai neu ddefnydd cymysg yn cynnwys elfen o dai. Serch hynny, mae gan rai o'r safleoedd hyn ddefnyddiau diwydiannol cyfredol sy'n golygu eu bod yn annhebygol o gael eu cyflwyno gan y farchnad heb ymyrraeth y sector cyhoeddus.

### 6.91

Y cyfleoedd datblygu allweddol ar y safleoedd tir llwyd a maes glas o fewn yr aneddiadau cyfredol yn yr ardal Uwchgynllun a'u galluoedd mynegol:

- H - 1 Ty Du, Nelson – mae caniatâd wedi'i roi ar gyfer datblygiad preswyl o hyd at 200 o anheddau gan gynnwys tua 50 o dai fforddiadwy, a datblygiad o 3.8 He o unedau cyflogaeth ynghyd â mannau agored cyhoeddus a thirlunio;
- H - 2 Glofa Penallta – mae mwyafrif y safle wedi'i datblygu, potensial ar gyfer tua 120 o anheddau ychwanegol i'w darparu, gan gynnwys unedau byw/gwaith posibl;
- H - 3 Tir-y-berth, Hengoed (Partmart) – 173 o anheddau;
- H - 4 Tir i'r dwyrain o'r Cwrt Pêl-llaw, Nelson - 90 uned, potensial ar gyfer gorsaf reilffordd newydd a datblygiad manwerthu.
- H - 5 Tir yn New Road, Ystrad Mynach – 18 o anheddau, dylai potensial ar gyfer ehangiad pellach gael ei ystyried trwy adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.
- H - 6 Ysgol Gynradd Greenhill, Gelligaer – Safle defnydd cymysg yn cynnwys ysgol gynradd newydd a 37 o dai fforddiadwy. Mae'r ysgol wedi'i hadeiladu ac mae'r anheddau wrthi'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

### 6.92

Mae pwysau datblygu hefyd ar gyfer tai ar ymyl aneddiadau.

### 6.93

Adnabu Ffigwr 17 y sefyllfa o ran safleoedd ar yr amser y cafodd yr uwchgynllun ei baratoi, ond cydnabyddir y gallai cyfleoedd arian annisgwyl ychwanegol gael eu hyrwyddo gan y diwydiant datblygu yn y dyfodol. Os oes ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno, mae'n angenrheidiol ystyried pob cais ar ei deilyngdod, ar ôl ystyried polisïau cynllunio, yr angen am dai a chynaliadwyedd y lleoliad.

## Ffigwr 17: Tai



## I - DARPARU LEFEL GYNALIADWY O GYFLEUSTERAU HAMDDEN AC ADDYSG CYMUNEDOL I GEFNOGI LEFEL BOSIBL O DWF POBLOGAETH A THAI O FEWN CANOLFAN STRATEGOL YSTRAD MYNACH

### HAMDDEN CYMUNEDOL

**6.94**

Ar hyn o bryd mae'r Ardal Uwchgynllun yn cynnig nifer fawr o gyfleoedd i ymgysylltu â gweithgaredd corfforol gan gynnwys canolfannau cymunedol ac ardaloedd chwarae penodol, wedi'u hategu gan nifer o barciau (gwledig), llwybrau beicio ac ardaloedd chwarae awyr agored.

**6.95**

Bydd datblygiad newydd yn gosod pwysau ychwanegol ar gyfleusterau a chan hynny mae angen defnydd mwy effeithiol ar gyfleusterau hamdden cymunedol.

**6.96**

Amlinella'r Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Gweithredol drafft diben a chyfeiriad i'r dyfodol ar gyfer darparu chwaraeon a hamdden antur o fewn y fwrdeistref sirol.

### DARPARIAETH YSGOL

**6.97**

Disgwylir i nifer y plant oed ysgol gynyddu o fewn yr Ardal Uwchgynllun o ganlyniad i ddatblygiad newydd ac mae'n bwysig bod cyfleoedd i ysgolion ehangu i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cytuno mewn egwyddor i ddarparu mannau ysgol ychwanegol o fewn Ystrad Mynach a'r maes pwnc ehangach i ariannu gael ei gadarnhau ar gyfer prosiectau unigol, achosion busnes yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bydd canlyniad ymgynghoriadau unigol yn cael eu hystyried fel rhan o raglen Ysgolion 21ain Ganrif.

**6.98**

Y cynigion allweddol yn ymwneud â'r Ardal Uwchgynllun yw fel a ganlyn:-

- I - 1 Ehangu ar Ganolfan Adnoddau ac Ysgol Trinity Fields i ddarparu ar gyfer galw a gofynion i'r dyfodol o Fil Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- I - 2 Bydd uno Ysgol Fabanod Llanfabon ac Ysgol Iau Llancaeach yn caniatáu ar gyfer ehangu ac adnewyddu Ysgol Fabanod Llanfabon gyfredol i greu ysgol addas i'r diben, effeithiol o ran ynni ar gyfer yr 21ain Ganrif gyda chyfleoedd cynyddol ar gyfer defnydd cymunedol a darpariaeth gofal plant.

## J - SICRHAU BOD HYGYRCHEDD I BAWB WEDI'I WREIDDIO YM MHOB CYNLLUN GWELLA

**6.99**

Mae hygyrchedd yn amcan trawsbynciol, sy'n berthnasol i gynlluniau sydd wedi'u hadnabod o fewn y cynllun hwn. Dylai'r holl gynigion datblygu gadw at egwyddorion cynllunio cynhwysol i sicrhau bod cynlluniau yn bodloni anghenion hygyrchedd pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r ardal Uwchgynllun, gan gynnwys y rheini gydag amhariadau symudedd, anawsterau dysgu a nam ar y synhwyrau.

## K - SICRHAU BOD POB CYMUNED YN ARDAL YR UWCHGYNLLUN YN GALLU YMGYSYLLTU AG YSTRAD MYNACH SY'N FWY AC YN WELL, AC ELWA ARNI.

### 6.100

O ganlyniad i Fynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, cytunwyd y byddai ffocws blaenoriaeth i weithredu ffordd newydd o weithio mewn nifer o gymunedau difreintiedig o fewn y fwrdeistref sirol.

### 6.101

Mae angen newid sylfaenol ar sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflwyno ar y cyd ac yn cael eu trin i fynd i'r afael ag anghenion amlochrog yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y fwrdeistref sirol. Dylid rhoi llawer yn fwy o bwyslais ar lywodraeth leol yn galluogi i'n cymunedau gyflenwi, yn hytrach na chyflenwi ar eu cyfer.

### 6.102

Mae angen pwyslais cynyddol ar adnabod asedau cymunedol. Pan fydd ymarferwyr yn cychwyn gyda ffocws ar yr hyn sydd gan gymunedau, yn hytrach na'r hyn nad oes ganddynt, mae effeithlonrwydd y gymuned wrth fynd i'r afael a'i hanghenion yn cynyddu, ynghyd â'i gallu i annog cefnogaeth allanol. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau wedi'u cynllunio i 'lenwi'r bylchau' a 'datrys problemau' gan greu dibyniaeth a dadrymuso unigolion sy'n dod yn dderbynyddion goddefol o wasanaethau.

### 6.103

Bydd ymdriniaeth newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili tuag at ddarparu gwasanaeth yn cynnig safbwynt newidiol ar adeiladu pontydd gyda chymunedau, byddino unigolion ac asedau cymunedol, a galluogi proses o gyd-gynhyrchu, gydag aelodau cymunedol, fel asiantaethau gweithredol yn eu bywydau eu hunain a bywydau eu teuluoedd. Mae cyd-gynhyrchu yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth gael eu hystyried yn arbenigwyr o dan eu hamgylchiadau eu hunain ac yn alluog i wneud penderfyniadau, tra bod darparwyr gwasanaeth yn symud o fod yn bobl sy'n trwsio i hwyluswyr. Bydd hyn yn gofyn i berthnasau newydd gael eu datblygu gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen, a mabwysiadu rôl o alluogi.

### 6.104

Bydd hyn yn gofyn am ymdriniaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n ceisio cydlynu'n well gwasanaethau i gyflawni'r effaith uchaf. Y bwriad yw mabwysiadu ffocws ar sail lle, gydag adolygiad o wasanaethau cyhoeddus i asesu pa mor dda y maen nhw'n bodloni'r deilliannau sy'n ofynnol gan breswylwyr, a sut y gallent wella effaith a gwerth am arian. Mae rôl y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, a chefnogaeth y partneriaid, yn allweddol wrth weithredu'r ymdriniaeth hon, ac ar ôl cefnogi'r ymdriniaeth tuag at Lansbury Park, yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae'n cynnig cyfle i ddatblygu hyn ar draws nifer o ardaloedd allweddol ar draws y fwrdeistref.

### 6.105

Mae gan y prosiectau sydd wedi'u hadnabod yn Uwchgynllun Ystrad Mynach y potensial i ddarparu buddion pellgyrhaeddol i'r holl breswylwyr, gan gynnwys y rheini sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig o fewn yr ardal Uwchgynllun a'r fwrdeistref sirol ehangach.

# Adran 7: Cyflenwi a Gweithredu Newid

Dengys y tabl isod y prosiectau sydd wedi'u hadnabod yn Adran 6 yr adroddiad, ynghyd â'r allbynnau disgwyliedig y bydd y prosiect yn eu cyflenwi a sut bydd y cynigion hyn yn mynd i'r afael ag amcanion Strategaeth Adfywio'r Cyngor (Atodiad 1). Mae'r tabl yn adnabod costau mynegol pob cynllun ac yn tynnu sylw at unrhyw arian sydd wedi'i sicrhau hyd yma. Dylid nodi bod nifer o'r prosiectau hyn ar gam cynnar iawn ac, o'r herwydd, dim ond amcangyfrif yw'r allbynnau a'r costau.

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/ Mynegol | Bodloni Amcanion y Strategaeth Adfywio | Arian sydd wedi'i sicrhau a chostau posib |
|---|---|---|---|---|---|
| **A – Darparu'r amodau i gryfhau twf busnes a gwneud y gorau o gyfleoedd cyflogaeth** | A - 1 Parc Busnes Tredomen | Datblygu tir i'r gogledd orllewin o Barc Busnes Tredomen ar gyfer unedau cyflogaeth | • Datblygu tua 4.3 He o dir sy'n cael ei danddefnyddio ar gyfer defnydd busnes/ cyflogaeth<br>• Creu tua 105,000 tr.sg. o ddatblygiad swyddfa carbon isel<br>• Parhau â momentwm y tri cham datblygu blaenorol<br>• Cyflymu datblygiad Busnes o fewn coridor Ystrad Mynach/Nelson<br>• Helpu i sicrhau coridor Ystrad Mynach/Nelson fel llain gyflogaeth hyfyw – gan greu cysylltedd â chyfleoedd cyflogaeth a busnes | • SP1<br>• SP4<br>• SB1 - 4<br>• CPP3 | Arian wedi'i Sicrhau: Dim hyd yma<br><br>Cyfanswm Costau: i'w bennu ond yn debygol o fod tua £15 - £17m<br><br>Buddsoddiad sector preifat yn bennaf ond mae'n debyg y bydd bwlch hyfywdra i'w lenwi.<br><br>Mae'r ddeialog ar agor rhwng perchennog o'r sector preifat a'r Cyngor ynghylch y posibilrwydd o ehangu. |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/ Mynegol | Bodloni Amcanion y Strategaeth Adfywio | Arian sydd wedi'i sicrhau a chostau posib |
|---|---|---|---|---|---|
| **A – Darparu'r amodau i gryfhau twf busnes a gwneud y gorau o gyfleoedd cyflogaeth** | | | • Creu nifer o eiddo busnes newydd a mentrau newydd<br>• Creu swyddi – creu tua 600 o swyddi 'coler wen' newydd<br>• Creu nifer o swyddi newydd drwy'r contract adeiladu<br>• Cynnwys cymalau cymdeithasol mewn unrhyw gontract adeiladu i sicrhau y caiff llafur lleol eu cyflogi<br>• Cyflwyno gwasanaethu ac isadeiledd angenrheidiol i hwyluso datblygu unedau busnes<br>• Denu cymudwyr i ddulliau newydd o drafnidiaeth drwy ddarparu Arosfa Metro newydd<br>• Lleihau lefel y cymudo o'r ardal drwy ddarparu swyddi lleol<br>• Gwella hyfywdra canol tref Ystrad Mynach drwy gynyddu nifer y bobl sy'n ymweld<br>• Gweler y bartneriaeth sector preifat/cyhoeddus i ddod â datblygiad graddol<br>• Dangos yr ardal fel un arloesol sy'n agored i newid | | |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/ Mynegol | Bodloni Amcanion y Strategaeth Adfywio | Arian sydd wedi'i sicrhau a chostau posib |
|---|---|---|---|---|---|
| **A - Darparu'r amodau i gryfhau twf busnes a gwneud y gorau o gyfleoedd cyflogaeth** | A - 2 Ty Du, Nelson | Datblygu safle defnydd cymysg sylweddol yn cynnwys eiddo cyflogaeth a phreswyl | • Ailddatblygiad defnydd cymysg llawn o 19 He o dir sydd wedi'i danddefnyddio<br>• Yn cynnwys datblygiad o 3.8 He o dir ar gyfer defnydd cyflogaeth<br>• Creu swyddi – 150 – 300 o swyddi newydd<br>• Datblygu tua 150 o unedau newydd i ddechreuwyr<br>• Tua 200 o swyddi newydd, yn cynnwys tai fforddiadwy<br>• Creu swyddi anuniongyrchol/ sydd wedi'u hysgogi o'r datblygiad preswyl<br>• Creu swyddi gweithredol a grëir trwy wariant preswyl<br>• Effaith o tua £41m net ar yr economi o'r datblygiad preswyl<br>• Cynhyrchu refeniw CIL | • SB1 – 4<br>• SQL5 | Arian wedi'i Sicrhau:<br>Isadeiledd wedi'i sicrhau drwy LlC ac EU-ERDF<br>Tai – dim hyd yma<br>Cyflogaeth – Cam 1 dim ond (£2m) drwy CCBC, LlC ac EU - ERDF<br><br>Cyfanswm Costau: i'w bennu<br>Unedau Cyflogaeth – Camau 2 a 3 (datblygu gweddill y tir cyflogaeth B1 sydd wedi'i glustnodi)<br>Amcangyfrif o Gostau £3 - 4M |
| | A - 3 Parc Busnes Dyffryn | Datblygu tir segur ar gyfer defnydd cyflogaeth | • Datblygu 6.3 He o dir cyflogaeth<br>• Twf busnes newydd<br>• Darparu datblygiad masnachol newydd<br>• Creu swyddi<br>• Gwelliannau i isadeiledd ac amgylcheddol | • SB1 - 4 | Arian wedi'i Sicrhau: Dim hyd yma<br><br>Cyfanswm Costau: I'w bennu<br><br>Partneriaeth sector preifat/ cyhoeddus |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/ Mynegol | Bodloni Amcanion y Strategaeth Adfywio | Arian sydd wedi'i sicrhau a chostau posib |
|---|---|---|---|---|---|
| **B - Creu'r amodau er mwyn i'r ardal fod yn Hwb Metro ffyniannus** | B - 1 Gorsaf Ystrad Mynach | Ailddatblygu ac ehangu cyfleusterau yng Ngorsaf Ystrad Mynach | • Gwelliannau ffisegol i'r ddarpariaeth bresennol<br>• Ailddatblygu'r fynedfa (oddi ar Ffordd Casnewydd)<br>• Gwella cysylltedd rhwng cyfleusterau | • CPP4 | Arian wedi'i Sicrhau: Dim hyd yma<br><br>Cyfanswm Costau: I'w bennu |
| | B - 2 Cyfleuster Parcio a Theithio estynedig Ystrad Mynach | Darparu cyfleusterau parcio a theithio ychwanegol | • Darparu cyfleuster parcio a theithio newydd – hyd at 120 o lefydd newydd<br>• Darpariaeth Trafnidiaeth cysylltiedig newydd<br>• Cynnydd mewn teithio mwy cynaliadwy | • CPP4 | Arian wedi'i Sicrhau: Dim hyd yma<br><br>Cyfanswm Costau: I'w bennu |
| | B - 3 Cyfleuster Parcio a Theithio estynedig Hengoed | Edrych i mewn i gyfleoedd i ddarparu cyfleusterau parcio a theithio ychwanegol | • Darparu cyfleuster parcio a theithio newydd<br>• Cynnydd mewn teithio mwy cynaliadwy | • CPP4 | Arian wedi'i Sicrhau: Dim hyd yma<br><br>Cyfanswm Costau: I'w bennu, bydd yn dibynnu ar y lleoliad arfaethedig |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodloni Amcanion y Strategaeth Adfywio | Arian sydd wedi'i sicrhau a chostau posib |
|---|---|---|---|---|---|
| **B – Creu'r amodau er mwyn i'r ardal fod yn Hwb Metro ffyniannus** | B - 4 Adfer llinell Cwmbargoed | Adfer llinell Cwmbargoed ar gyfer trafnidiaeth teithwyr | • Darparu cysylltedd hanfodol rhwng Gorllewin a Dwyrain ardal yr Uwchgynllun<br>• Creu Arosfannau Metro newydd yn Nhredomen a Nelson<br>• Ailddatblygu ehangach o dir sy'n cael ei danddefnyddio ar gyfer defnydd manwerthu a phreswyl yn Nelson<br>• Adeiladu tai newydd, o bosib yn cynnwys tai fforddiadwy<br>• Creu swyddi anuniongyrchol/sy'n cael eu hysgogi o ddatblygiad preswyl<br>• Creu swyddi gweithredol a grëir trwy wariant preswyl<br>• Datblygu unedau manwerthu newydd<br>• Creu cyfleuster parcio a theithio 80 o lefydd<br>• Gwella hyfywdra canol lleol Nelson drwy gynyddu nifer yr ymweliadau<br>• Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy i'r gweithle<br>• Lleihau allyriadau carbon/CO2<br>• Gwella hygyrchedd<br>• Lleihau tagfeydd ar yr A472<br>• Gwella amseroedd teithio<br>• Lleihau costau teithio<br>• Buddsoddiad sydd wedi'i ysgogi o'r sector preifat<br>• Cynhyrchu refeniw CIL | • CPP2 - 4 | Arian wedi'i Sicrhau: Dim hyd yma<br><br>Cyfanswm Costau: £3m+ |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodloni Amcanion y Strategaeth Adfywio | Arian sydd wedi'i sicrhau a chostau posib |
|---|---|---|---|---|---|
| **B – Creu'r amodau er mwyn i'r ardal fod yn Hwb Metro ffyniannus** | B - 5 Rhwydwaith Bws Rhanbarthol | Cyflwyno Llwybrau Trafnidiaeth Bws Cyflym | • Lleihau tagfeydd ar yr A472<br>• Lleihau allyriadau carbon/CO2<br>• Gwella cysylltedd a chysylltiadau â safleoedd datblygu allweddol | • CPP2 | Arian wedi'i Sicrhau: Dim hyd yma<br><br>Cyfanswm Costau: I'w bennu |
| | B - 6 Cyfleusterau Parcio Beiciau | Darparu cyfleusterau beicio ym mhob hwb trafnidiaeth presennol (Gorsafoedd Ystrad Mynach, Hengoed a Phengam ynghyd ag unrhyw orsafoedd newydd) ynghyd â chyrchfannau cyflogaeth a manwerthu allweddol | • Cynyddu defnydd o ddulliau cynaliadwy o drafnidiaeth<br>• Lleddfu tagfeydd<br>• Elwa o'r cysylltiadau beicio ardderchog drwy ardal yr Uwchgynllun | • CPP2 | Arian wedi'i Sicrhau: Dim hyd yma<br><br>Cyfanswm Costau: I'w bennu – rhagwelir y bydd yn ffurfio rhan o waith cytundebol arall |
| | B - 7 Cynllun Llogi Beiciau | Darparu cynllun llogi beiciau gyda phwyntiau llogi mewn dynodiadau allweddol | • Cynnydd mewn defnydd o ddulliau cynaliadwy o drafnidiaeth<br>• Lliniaru ar dagfeydd<br>• Elwa o'r cysylltiadau beicio ardderchog drwy ardal yr Uwchgynllun | • CPP2 | Arian wedi'i Sicrhau: Dim hyd yma<br><br>Cyfanswm Costau: I'w bennu |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodloni Amcanion y Strategaeth Adfywio | Arian sydd wedi'i sicrhau a chostau posib |
|---|---|---|---|---|---|
| **C – Moderneiddio a Datblygu Ystrad Mynach yn Ganolfan Fusnes a Masnachol ffyniannus** | C - 1 Canol Tref Ystrad Mynach | Adeiladu a gwella'r Cynnig Canol Tref | • Ailddatblygu adeiladau allweddol<br>• Annog gwerthu cynnyrch lleol/fferm<br>• Rhoi hwb i'r economi gyda'r nos<br>• Cynyddu'r amser mae ymwelwyr yn ei dreulio a'r arian maent yn ei wario<br>• Cynyddu gwariant gan bobl fusnes | • SB1<br>• SQL3<br>• SQL4<br>• SQL7 | Arian wedi'i Sicrhau: Dim hyd yma<br><br>Cyfanswm Costau: I'w bennu |
